



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

93/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

03/10/2023

Asesu Gwerthusadwyedd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGI © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-582-4

Teitl: Aseu Gwerthusadwyedd Deddf Iechyd a Gofal
Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

Awduron: Liz Phillips a Kelly Lock

Adroddiad Ymchwil Llawn: Phillips, L., a Lock, K. (2023). *Aseu Gwerthusadwyedd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 93/2023
Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/aseu-gwerthusadwyedd-deddf-iechyd-gofal-cymdeithasol-ansawdd-ac-ymgysylltu-cymru-2020>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ymchwil Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Ymchwil.IechydAGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	1
Rhestr o ffigurau	1
1. Cefndir.....	2
2. Y ddyletswydd ansawdd.....	6
3. Y ddyletswydd gonestrwydd.....	22
4. Corff Llais y Dinesydd	38
5. Penodi is-gadeiryddion statudol i ymddiriedolaethau'r GIG.....	58
6. Data ar gyfer y gwerthusiad	66
7. Argymhellion	75
Cyfeiriadau.....	80

Rhestr o dablau

Tabl 1: Mesurau canlyniadau a ffynonellau data posibl ar gyfer gwerthuso'r ddyletswydd ansawdd.....	17
Tabl 2: Mesurau canlyniadau a ffynonellau data posibl ar gyfer gwerthuso'r ddyletswydd gonestrwydd.....	33
Tabl 3: Mesurau canlyniadau a ffynonellau data posibl ar gyfer gwerthuso Corff Llais y Dinesydd	51
Tabl 4: Mesurau canlyniadau a ffynonellau data posibl ar gyfer gwerthuso penodi is-gadeiryddion statudol i ymddiriedolaethau'r GIG.....	64
Tabl 5: Rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau i gymryd rhan mewn gwerthusiad o'r Ddeddf.....	66

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Y ddamcaniaeth newid ar gyfer y ddyletswydd ansawdd.....	7
Ffigur 2: Y ddamcaniaeth newid ar gyfer y ddyletswydd gonestrwydd.....	23
Ffigur 3: Y ddamcaniaeth newid ar gyfer Corff Llais y Dinesydd.....	39
Figure 4: Y ddamcaniaeth newid ar gyfer penodi is-gadeiryddion i ymddiriedolaethau'r GIG	59

1. Cefndir

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

1.1 Cafodd [Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Ansawdd ac Ymgysylltu\) \(Cymru\) 2020](#)

(y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'y Ddeddf') Gydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2020 ac fe'i cychwynnwyd yn llawn ym mis Ebrill 2023,¹ gyda Chorff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd hefyd yn dod yn weithredol o'r dyddiad hwn.

1.2 Nod y Ddeddf yw diogelu a gwella iechyd, gofal a llesiant poblogaeth Cymru heddiw ac yn y dyfodol. Mae'n ceisio adeiladu ar asedau presennol i helpu i gryfhau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gefnogi integreiddio a gwell canlyniadau.

1.3 Mae darpariaethau'r Ddeddf yn cynnwys y ddyletswydd ansawdd, y ddyletswydd gonestrwydd, Corff Llais y Dinesydd, a'r gofyniad i ymddiriedolaethau'r GIG gael is-gadeirydd statudol. Gwelliant parhaus yn ansawdd gwasanaethau yw'r cysyniad canolog sy'n sail i'r darpariaethau. Mae ansawdd yn cael ei weld fel ffordd o weithio ar draws y system, er mwyn galluogi gwasanaethau diogel, effeithiol, amserol, effeithlon a theg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yng nghyd-destun diwylliant dysgu.

Gwerthuso'r Ddeddf

1.4 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwerthuso'r Ddeddf fel rhan o'i hadolygiad ôl-weithredu. Bwriad y gwerthusiad yw archwilio gweithrediad y Ddeddf a'i heffeithiau er mwyn asesu i ba raddau y mae'r effeithiau, y costau a'r manteision a ragwelir yn cael eu gwireddu, i bwy, sut a pham. Mae'n debygol felly o ymgorffori mesurau o ganlyniad (h.y. pa newid y gellir ei weld o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth, gan gydnabod yr her ynghylch i ba raddau y gellir priodoli'r newid hwn i'r ddeddfwriaeth) a phroses (h.y. pa ffactorau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r ddeddfwriaeth a allai esbonio'r newidiadau a arsylwyd).

¹ Yr unig ddarpariaeth sydd i'w chychwyn yn sylweddol cyn hyn yw adran 24, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru, os ydynt o'r farn ei bod yn briodol, i benodi is-gadeirydd i ymddiriedolaeth GIG. Daeth y ddarpariaeth hon i rym erbyn diwedd 2021.

- 1.5 Disgwylir i'r gwerthusiad gyd-fynd, lle bo'n bosibl, â phrosesau adrodd a chasglu data presennol i ddarparu fframwaith effeithiol ar gyfer dangos canlyniadau wrth leihau baich ychwanegol. Bydd y gwerthusiad hefyd yn cynnwys casglu data newydd i lenwi bylchau mewn tystiolaeth, gan gynnwys casglu tystiolaeth ansoddol gan randdeiliaid allweddol a defnyddwyr gwasanaethau.
- 1.6 Mae polisiâu a mentrau eraill o fewn y system ehangach hefyd yn mynd i'r afael â nifer o feysydd a chanlyniadau y mae'r Ddeddf yn ymdrin â nhw. Disgwylir felly i'r gwerthusiad ystyried y system ehangach wrth asesu effeithiau.
- 1.7 Bydd y gwerthusiad yn dechrau yn 2023 a bydd yn asesu'r tair blynedd gyntaf ar ôl gweithredu'r Ddeddf. Cynhaliwyd yr asesiad gwerthusadwyedd y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arno i helpu i lywio'r gwerthusiad.

Yr asesiad gwerthusadwyedd

- 1.8 Mae asesiadau gwerthusadwyedd yn ffordd o gyd-gynllunio a dylunio gwerthusiadau i sicrhau eu bod yn cynhyrchu tystiolaeth berthnasol a chadarn i lywio penderfyniadau a'u bod yn cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ehangach ([Brunner, Craig a Watson, 2019](#)).
- 1.9 Yn 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru Opinion Research Services (ORS) i asesu gwerthusadwyedd y Ddeddf. Nod yr asesiad hwn yw gwneud argymhellion ar raglen briodol i werthuso gweithrediad y Ddeddf a'i heffaith. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid ac adolygu dogfennau a llenyddiaeth berthnasol i wneud y canlynol:
 1. Datblygu damcaniaeth newid ar gyfer pob maes o'r Ddeddf, gan gynnwys amlinelliad gweledol o'r mewnbynnau (adnoddau ariannol ac anariannol sydd eu hangen ar gyfer gweithredu); gweithgareddau (gweithgareddau allweddol sydd wedi'u cymryd neu a fydd yn cael eu cymryd); a chanlyniadau tymor byr, canolig a hir (y newidiadau a fydd yn deillio o weithredu). Roedd disgwyl hefyd i'r damcaniaethau newid nodi'r rhagdybiaethau allweddol, ffactorau cyd-destunol, rhwystrau a hwyluswyr, a chanlyniadau anfwriadol posibl (cadarnhaol a negyddol) sy'n gysylltiedig â gweithredu.

2. Nodi cwestiynau allweddol ar gyfer y gwerthusiad, opsiynau gwerthuso, dulliau, mesurau, data presennol a newydd, a grwpiau allweddol o ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid i'w cynnwys yn y gwerthusiad.
3. Ystyried goblygiadau'r amgylchedd polisi ehangach ar gyfer y gwerthusiad.
4. Nodi sut y gallai'r gwerthusiad ystyried [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

1.10 Fel rhan o'r asesiad gwerthusadwyedd, cynhaliwyd dwy rownd o weithdai a chyfweiliadau unigol gyda rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru, y GIG ac eraill allweddol. Cynhaliwyd gweithdai ar wahân ar bob un o bedair rhan y Ddeddf i gydnabod eu bod yn cynnwys newidiadau ar wahân, er eu bod yn gysylltiedig, a gwahanol rhanddeiliaid allweddol. Cynhaliwyd pedwar gweithdy Rownd 1, a oedd yn cynnwys chwe aelod o staff Llywodraeth Cymru ac wyth o rhanddeiliaid y GIG ac eraill allweddol. Cynhaliwyd saith gweithdy Rownd 2, a oedd yn cynnwys deg aelod o staff Llywodraeth Cymru a deg o rhanddeiliaid y GIG ac eraill allweddol. Cynhaliwyd cyfweiliadau ag wyth o rhanddeiliaid a oedd â rôl a oedd yn rhychwantu mwy nag un maes o'r Ddeddf, a/neu â rôl neu broffil profiad unigryw. Nodwyd yr holl rhanddeiliaid gan Lywodraeth Cymru.

Gweithdai Rownd 1: Gorffennaf – Awst 2022

- Datblygwyd damcaniaeth newid
- Archwiliwyd pa ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid ddylai fod yn rhan o'r gwaith o werthuso'r Ddeddf, a sut y gellid cyflawni hyn
- Nodwyd ffynonellau data, anghenion, a bylchau mewn perthynas â'r gwaith o werthuso'r Ddeddf

Gweithdai Rownd 2: Medi – Hydref 2022

- Adolygwyd a mireiniwyd y ddamcaniaeth newid
- Nodywd cwestiynau gwerthuso, blaenoriaethau, a dulliau gweithredu
- Ystyriwyd goblygiadau'r amgylchedd polisi ehangach ar gyfer y gwerthusiad

- Nodwyd cysylltiadau rhwng y Ddeddf a [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) ac ystyriaethau cysylltiedig ar gyfer y gwerthusiad

Cyfweliadau unigol: Gorffennaf – Medi 2022

- Archwiliwyd meysydd tebyg i weithdai Rownd 1 a 2, wedi'u teilwra yn unol â rolau unigol rhanddeiliaid

Adolygiad o lenyddiaeth a dogfennau

- Adolygwyd dogfennaeth allweddol sy'n ymwneud â'r Ddeddf, gan gynnwys y [memorandwm esboniadol](#); dogfennau gan yr ymgynghoriadau cyhoeddus ar y [ddyletswydd ansawdd](#) a'r [ddyletswydd gonestrwydd](#) (gan gynnwys canllawiau statudol drafft); diweddariadau gweithredu; a chofnodion cyfarfodydd
- Adolygwyd llenyddiaeth berthnasol ddiweddar sy'n ymwneud â dulliau gwerthuso posibl

- 1.11 Mae dealltwriaeth o'r adolygiad dogfennau, gweithdai a chyfweliadau yn llywio'r adrannau o'r adroddiad sy'n trafod pob rhan o'r Ddeddf; yr amgylchedd polisi ehangach; cysylltiadau rhwng y gwahanol rannau o'r Ddeddf; a chysylltiadau â [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#). Cyfunwyd y dealltwriaeth hon â'n gwybodaeth a'n harbenigedd, yn ogystal â mewnwleidiad o lenyddiaeth fethodolegol, i lywio ein gwaith desg i ddatblygu mesurau canlyniadau; nodi ystyriaethau a goblygiadau ar gyfer y gwerthusiad; a gwneud argymhellion ar ddull gwerthuso.
- 1.12 Mae adrannau 2-5 yn amlinellu canfyddiadau'r asesiad gwerthusadwyedd mewn perthynas â phob maes o'r Ddeddf yn eu tro, gan gyflwyno'r damcaniaethau newid ac amlinellu mesurau canlyniadau posibl a ffynonellau data ar gyfer eu gwerthuso. Nid yw'r gweithgareddau a'r canlyniadau o reidrwydd yn nhrefn blaenoriaeth. Lle bu rhanddeiliaid yn trafod blaenoriaethu, amlygir hyn yn y naratif.
- 1.13 Mae Adran 6 yn parhau i drafod data ar gyfer y gwerthusiad; goblygiadau'r amgylchedd polisi ehangach; y cysylltiadau rhwng gwahanol rannau'r Ddeddf; a sut y gallai'r gwerthusiad ystyried [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#). Mae Adran 7 yn gorffen gyda'n hargymhellion ar gyfer cynnal y gwerthusiad.


1.14 Ar adeg casglu data, roedd trafodaethau'n dal i gael eu cynnal i freinio cynlluniau ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd ansawdd, y ddyletswydd gonestrwydd a Chorff Llais y Dinesydd. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd angen ailedrych ar eu damcaniaethau newid, a'r argymhellion gwerthuso sy'n dibynnu arnynt, a'u datblygu ymhellach yn ddiweddarach.

2. Y ddyletswydd ansawdd

Y ddamcaniaeth newid

2.1 Cyflwynir y ddamcaniaeth newid ar gyfer y ddyletswydd ansawdd isod.

Ffigur 1: Y ddamcaniaeth newid ar gyfer y ddyletswydd ansawdd



Gweithgareddau

2.2 Y gweithgareddau allweddol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r ddyletswydd ansawdd yw fel a ganlyn:

- **Cyfathrebu lleol a chenedlaethol ynghylch diben y ddyletswydd ansawdd a chynnydd o ran gweithredu, wedi'i deilwra i anghenion gwybodaeth a dewisiadau'r cyhoedd.** Tynnodd y rhanddeiliaid sylw at yr angen i ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd i ddeall pa agweddau ar ansawdd y gwasanaeth iechyd a fyddai'n ystyrlon iddynt, ac i ymgorffori hyn mewn adroddiadau. Yn ôl rhanddeiliaid, ystyriaeth allweddol wrth roi'r gweithgaredd hwn ar waith fydd y math o gyfathrebu a'i fformat, gan sicrhau ei fod yn gydlynol, yn gyson ac yn hygyrch. Roeddent hefyd yn teimlo y dylai'r cyfathrebu gael ei gyflwyno "fesul cam" fel nad yw'r cyhoedd yn teimlo bod y ffocws ar ansawdd yn rhywbeth newydd.
- **Hyfforddiant, cyngor ac adnoddau aml-ddull wedi'u teilwra ar gyfer staff perthnasol y gwasanaeth iechyd a Llywodraeth Cymru,** gan gynnwys, er enghraifft, astudiaethau achos, fideos, ac e-ddysgu. Awgrymodd rhanddeiliaid y gallai digwyddiadau lleol sy'n hyrwyddo ac yn rhannu dysgu am ansawdd hefyd fod yn rhan o'r gweithgaredd hwn, yn ogystal â digwyddiadau canolog a mwy o faint. Nodwyd y byddai angen i hyfforddiant fod yn barhaus i sicrhau bod staff newydd yn cael eu cynnwys, a bod staff presennol yn cael eu diweddarau wrth i'r broses weithredu ddatblygu.
- **Datblygu a gweithredu mesurau canlyniadau ansoddol a meintiol addas ar lefel genedlaethol, lefel y bwrdd iechyd a lefel gwasanaethau.** Ategir y gweithgaredd hwn gan y galluogwr ansawdd y cyfeirir ato fel "data i wybodaeth", sy'n golygu triongli data yn wybodaeth i ddatblygu dealltwriaeth o ansawdd gwasanaethau, y gellir ei defnyddio wedyn i lywio dysgu a gwneud penderfyniadau strategol, ac arwain gwaith gwella ansawdd (Llywodraeth Cymru, 2022).
- Tynnodd rhanddeiliaid sylw at yr angen i fyrddau iechyd gael hyblygrwydd o ran pa ganlyniadau y maent yn adrodd arnynt o dan y ddyletswydd ansawdd,

gan adlewyrchu'r hyn sy'n ystyrion ac yn berthnasol i'w defnyddwyr gwasanaethau a thrigolion lleol. Ymgwymerwyd â gwaith yn ystod y cam gweithredu i ddatblygu, profi a mireinio mesurau canlyniadau'r ddyletswydd ansawdd (gan gynnwys meincnodi rhyngwladol).

- **Dangos tystiolaeth o gynnydd o ran gwella ansawdd ar lefel genedlaethol, lefel y bwrdd iechyd a lefel gwasanaethau.** Dylid cyflawni hyn trwy adrodd a chyfathrebu mwy tryloyw, rheolaidd a rhyngweithiol ar ansawdd gwasanaethau iechyd, yn ôl rhanddeiliaid. Byddai cael y seilwaith cywir i alluogi'r gwaith o gasglu a dadansoddi data sy'n cefnogi adrodd a chyfathrebu yn allweddol i roi'r gweithgaredd hwn ar waith. Teimlai rhanddeiliaid y gallai fod angen staff arbenigol ychwanegol i gyflawni hyn.
- **Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn datblygu methodolegau arolygu ac yn cynnal arolygiadau sy'n cyd-fynd â'r ddyletswydd ansawdd.** Bydd yn rhaid i AGIC ystyried y [safonau ansawdd newydd](#) (2023) y bydd Gweinidogion Cymru yn eu llunio mewn perthynas â darparu gofal iechyd gan gyrrff GIG Cymru, ac ar eu cyfer, wrth gynnal adolygiadau ac ymchwiliadau (Llywodraeth Cymru, 2022).
- **Mae cyrff y GIG yn arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ystyried sut y gallant wella ansawdd yn barhaus, fel bod gwella ansawdd yn dod yn rhan annatod o'r broses o wneud penderfyniadau.** Nododd rhanddeiliaid y byddai hyn yn ysgogi prosiectau gwella ansawdd. Mae'n bosibl y bydd angen archwilio ymhellach y ffordd y caiff y gweithgarwch lefel uchel hwn ei roi ar waith yn ymarferol o fis Ebrill 2023 ymlaen fel rhan o'r gwerthusiad.
- **Dull system gyfan o reoli ansawdd yn y GIG i sicrhau gwelliant sy'n llawer ehangach na sicrhau ansawdd.** Yn fras, bydd hyn yn golygu bod cyrff y GIG yn gweithio gyda chleifion a thimau o bob rhan o'r system gofal iechyd yng Nghymru i adeiladu ar y diwylliant ansawdd cadarnhaol presennol o fewn system gofal iechyd Cymru i gyflawni canlyniadau sy'n bwysig, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael mewn ffordd gynaliadwy (Llywodraeth Cymru, 2022). Yn ôl y [canllawiau statudol](#), dylai cyrff y GIG ddynodi uwch-

arweinwyr priodol i gymryd cyfrifoldeb am weithredu a goruchwylio'r ddyletswydd ansawdd. Fodd bynnag, mae pob aelod o'r bwrdd sy'n swyddog a phob aelod nad yw'n swyddog yn gyfrifol am sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r ddyletswydd. Mae'n bosibl y bydd angen archwilio ymhellach y ffordd y caiff y gweithgarwch lefel uchel hwn ei roi ar waith yn ymarferol o fis Ebrill 2023 ymlaen fel rhan o'r gwerthusiad.

- **Mae Gweinidogion Cymru yn cefnogi ac yn cyfrannu at wella ansawdd gwasanaethau iechyd wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd.** Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a ydynt yn gwneud eu penderfyniadau gyda'r bwriad o wella ansawdd gwasanaethau iechyd. Mae'r ddyletswydd ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn cael eu trefnu a'u darparu mewn ffordd sy'n anelu at sicrhau gwelliant parhaus, system gyfan yn ansawdd gwasanaethau iechyd; sicrhau bod gan gyrff cenedlaethol perthnasol ddull cydlynol a chydweithredol o wella'r system gyfan; cyhoeddi canllawiau i gyrff y GIG ar sut y maent yn cydymffurfio â'r ddyletswydd; a chynhyrchu adroddiadau blynyddol yn amlinellu sut y maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd ansawdd (Llywodraeth Cymru, 2022).

2.3 Yn gysylltiedig â'r tri gweithgaredd olaf, mae'r [canllawiau statudol ar y ddyletswydd ansawdd](#) yn datgan bod Gweinidogion Cymru a chyrrff y GIG yn gyfrifol am sicrhau ac annog dysgu ac arbenigedd a rennir ynghylch gwella ansawdd yn barhaus. Gellid gwella hyn trwy ddysgu o systemau gofal sy'n perfformio'n dda ledled y byd, yn ôl y canllawiau. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y dylai cyrrff y GIG asesu eu "parodrwydd ar gyfer newid" i ddeall ble mae unrhyw fylchau o ran gallu trwy ddefnyddio asesiadau, ymchwiliadau a mesuriadau rheolaidd, a rhoi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau (Llywodraeth Cymru, 2022).

2.4 Mae'r gweithgareddau'n cysylltu â chanlyniadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor arfaethedig y ddyletswydd, sy'n cael eu harchwilio yn eu tro isod.

Canlyniadau tymor byr

2.5 Y canlyniad tymor byr cyntaf yw bod **aelodau'r cyhoedd yn fwy gwybodus am yr hyn y mae ansawdd gwasanaethau iechyd yn ei olygu, a sut mae eu**

gwasanaethau lleol yn perfformio o ran ansawdd. Nododd rhanddeiliaid bwysigrwydd dealltwriaeth gyffredin rhwng rhanddeiliaid a'r cyhoedd o ystyr ansawdd mewn gwasanaethau iechyd.

- 2.6 Yr ail ganlyniad tymor byr yw **gwell dealltwriaeth ymhlith holl staff perthnasol y GIG a Llywodraeth Cymru o feysydd a galluogwyr ansawdd; sut mae gwasanaethau iechyd yn gwneud o ran ansawdd; a sut y gall hyn ysgogi eu gweithgareddau.** Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod codi ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd ansawdd yn hanfodol i gyflawni'r canlyniad hwn, gan ei gysylltu â'r gweithgareddau hyfforddi a chyfathrebu.
- 2.7 Y trydydd canlyniad tymor byr yw bod **holl staff y GIG yn meddwl am ansawdd a gwella ansawdd.** Nododd rhanddeiliaid fod y ddyletswydd ansawdd yn ddyletswydd sefydliadol. Felly byddai aelodau byrddau'r GIG yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau ei gweithrediad, ond dylai rhaeadru ar draws strwythurau'r sefydliad. Mae diwylliant o arweinyddiaeth wasgaredig yn allweddol i annog staff ar bob lefel i roi syniadau newydd ar waith i wella ansawdd, yn ôl y [canllawiau statudol](#), sydd hefyd yn tynnu sylw at yr angen i arweinwyr hyrwyddo gwelliannau mewn ansawdd (Llywodraeth Cymru, 2022).
- 2.8 Amlygodd rhanddeiliaid fod yr ail a'r trydydd canlyniad tymor byr yn dibynnu ar newid diwylliannol ar y cyd o fewn y GIG i roi ansawdd wrth wraidd gwella canlyniadau ac egluro dealltwriaeth yr holl staff o'u cyfraniad at gyflawni a chynnal hyn. Teimlai rhai, er y byddai'r newid hwn yn dechrau digwydd yn syth ar ôl rhoi'r ddyletswydd ar waith, y byddai'n parhau i esblygu, ac y byddai angen ei gynnal, dros y tymor canolig a'r hirdymor.
- 2.9 Y pedwerydd canlyniad tymor byr yw bod **gwybodaeth am ansawdd y gwasanaeth iechyd ar gael ac yn hygyrch yn amserol.** Rhaid i Weinidogion Cymru a chyrrff y GIG lunio adroddiadau ansawdd blynyddol ar y camau y maent wedi'u cymryd i weithredu'r ddyletswydd ansawdd. Yn ogystal, rhaid i gyrrff y GIG ddatblygu mecanwaith adrodd sydd "ar waith bob amser", sy'n golygu bod sefydliadau'n coladu, yn monitro ac yn sicrhau bod gwybodaeth am ansawdd eu gwasanaethau ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd. Mae'r [canllawiau statudol ar y ddyletswydd ansawdd](#) yn cynnwys tystiolaeth a awgrymir i sefydliadau ei chynnwys

yn eu hadroddiadau. Ystyriaeth allweddol yw faint o ddata i'w gyhoeddi yn yr adroddiadau a sut y caiff ei gyflwyno, yn ôl rhanddeiliaid, a oedd yn teimlo ei bod yn bwysig dewis y data'n ofalus er mwyn meithrin dealltwriaeth o ansawdd gwasanaethau iechyd ymhlith pawb â diddordeb.

- 2.10 Nododd rhanddeiliaid fod llawer o grwpiau a fyddai â diddordeb yn yr adroddiadau. Roedd y rhain yn cynnwys AGIC, Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru, Unedau Cyflawni'r GIG, Gwelliant Cymru,² a'r cyhoedd, gan bwysleisio y dylai'r holl adroddiadau fod yn briodol i'r cynulleidfaoedd perthnasol a'u cyhoeddi'n amserol.
- 2.11 Y pumed canlyniad tymor byr yw **trafodaethau mwy gwybodus, â ffocws, a mwy strwythuredig ynghylch ansawdd gwasanaethau iechyd rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff y GIG**. Roedd rhai rhanddeiliaid yn gweld hwn fel un o'r canlyniadau tymor byr pwysicaf. Nododd rhai fod y trafodaethau hyn wedi dechrau digwydd eisoes mewn cyfarfodydd bwrdd, gan adlewyrchu'r newid yn y naratif a'r disgwyliadau ynghylch ansawdd yn unol â'r ddyletswydd. Dywedodd rhanddeiliaid fod y trafodaethau hyn, yn flaenorol, yn tueddu i ganolbwyntio ar gyllid neu faterion eraill, gydag ansawdd yn ystyriaeth eilradd. Dylai cyflwyno'r ddyletswydd ansawdd sicrhau bod y sgysiau hyn yn cael eu llywio'n bennaf gan wella ansawdd, wrth ddal i gynnwys materion pwysig eraill. Nodwyd pwysigrwydd cael mynediad at y data cywir a chyd-ddealltwriaeth o ansawdd i lywio'r trafodaethau hyn.
- 2.12 Y chweched canlyniad tymor byr yw bod **polisiau, gweithdrefnau, seilwaith ac ymddygiad cyrff y GIG yn cyd-fynd â'r ddyletswydd ansawdd**. Mae'r canlyniad hwn yn rhychwantu'r tymor byr a'r tymor canolig oherwydd, er y dylai ddechrau dod i'r amlwg yn syth ar ôl rhoi'r Ddeddf ar waith, na ddisgwylir i rai elfennau ohono gael eu gweld tan yn ddiweddarach, ar y cyd â disodli strategaethau hyn, er enghraifft.
- 2.13 Y seithfed canlyniad tymor byr yw bod **polisi a chyfeiriad Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r ddyletswydd ansawdd**. Mae hyn hefyd yn rhychwantu'r tymor byr a chanolig, am yr un rheswm ag yn 2.12. Roedd rhai rhanddeiliaid yn gweld hwn fel

² Gwelliant Cymru yw'r gwasanaeth gwella ar gyfer GIG Cymru. Ei nod yw cefnogi'r gwaith o greu system iechyd a gofal o'r ansawdd gorau i Gymru fel bod gan bawb fynediad at ofal diogel, effeithiol ac effeithlon, yn y lle cywir, ac ar yr amser cywir. Am ragor o wybodaeth, gweler [Gwelliant Cymru – Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](http://gig.cymru).

un o'r canlyniadau pwysicaf. Teimlent y byddai cyflawni'r canlyniad hwn yn gofyn am newid diwylliant ac arweinyddiaeth gref.

Canlyniadau tymor canolig

- 2.14 Awgrymodd rhanddeiliaid fod yr holl ganlyniadau tymor canolig yr un mor bwysig. Y canlyniad tymor canolig cyntaf yw **mwya o hyder ymhlith defnyddwyr gwasanaethau yn ansawdd gwasanaethau iechyd**.
- 2.15 Yr ail ganlyniad tymor canolig yw bod **defnyddwyr gwasanaethau yn cael profiad gwell o wasanaethau iechyd** oherwydd y dylai ffocws ar y meysydd ansawdd fod â goblygiadau i'r ffordd y caiff y gwasanaethau hynny eu profi. Awgrymodd un rhanddeiliad y gallai'r ffocws o'r newydd ar ansawdd a gyflwynwyd gan y ddyletswydd hefyd wella amgylchedd gwaith staff y GIG. Gellid ystyried hyn ymhellach mewn iteriadau yn y dyfodol o'r ddamcaniaeth newid ar gyfer y ddyletswydd ansawdd.
- 2.16 Y trydydd canlyniad tymor canolig yw **gwasanaethau iechyd diogel, amserol, effeithiol, effeithlon a theg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn**. Dyma'r meysydd ansawdd ar gyfer llywio gwelliant cynyddol mewn gwasanaethau iechyd, fel yr amlinellir yn y [canllawiau statudol ar y ddyletswydd ansawdd a'r safonau ansawdd](#). Mae "diogel" yn cyfeirio at atal niwed y gellir ei osgoi, gwneud y gorau o'r pethau sy'n mynd yn iawn, a dysgu pan fydd pethau'n mynd o chwith i'w hatal rhag digwydd eto. Mae "amserol" yn golygu cael mynediad at gyngor, arweiniad a gofal o ansawdd uchel yn gyflym ac yn hawdd, yn y lle iawn, y tro cyntaf, gan flaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Mae "effeithiol" yn golygu bod y system gofal iechyd yn adlewyrchu arferion gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal cywir sy'n eu galluogi i gyflawni'r canlyniadau gorau. Mae "effeithlon" yn golygu defnyddio dull sy'n seiliedig ar werthoedd i wella'r canlyniadau sydd bwysicaf mewn ffordd gynaliadwy sy'n osgoi gwastraff. Mae "teg" yn cyfeirio at system iechyd sy'n galluogi pawb i gyflawni eu potensial ar gyfer bywyd iach, waeth beth fo'u nodweddion personol. Mae "canolbwyntio ar yr unigolyn" yn golygu bod ein system gofal iechyd yn diwallu anghenion pobl ac yn sicrhau bod eu dewisiadau, eu hanghenion a'u gwerthoedd yn llywio'r penderfyniadau a wneir rhwng unigolion a gweithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau iechyd.

Canlyniadau tymor hir

- 2.17 Y canlyniad hirdymor cyntaf yw **canlyniadau iechyd gwell i'r boblogaeth**. Mae hyn yn adlewyrchu diben sylfaenol y ddyletswydd ansawdd. Pwysleisiodd y rhanddeiliaid, wrth geisio cyflawni'r canlyniad hwn, y dylai sefydliadau ystyried sut i ddiwallu anghenion defnyddwyr presennol a defnyddwyr y dyfodol o wasanaethau iechyd, ar lefel y boblogaeth, yn hytrach na darparu gwasanaeth yn unig. Yn hyn o beth, mae'n cysylltu hyn â gofal iechyd darbodus sy'n seiliedig ar werthoedd, a drafodir isod. Nododd rhanddeiliaid y bydd angen mesurau lluosog ar gyfer y canlyniad hwn, nad ydynt wedi'u diffinio'n glir eto.
- 2.18 Yr ail ganlyniad hirdymor yw **gofal iechyd mwy darbodus a chynaliadwy o werth gwell**. Mae hyn yn adlewyrchu bod y ddyletswydd ansawdd yn cefnogi'r gwaith o gymhwyso egwyddorion gofal iechyd darbodus sy'n seiliedig ar werthoedd, y cyfeirir atynt yn y [Fframwaith Clinigol Cenedlaethol](#) (2021) fel "darbodus yn ymarferol". Mae hyn yn symud arferion tuag at ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n cefnogi pobl i aros yn iach, rheoli eu cyflyrau, a chael cymorth arbenigol pan fo angen. At hynny, mae gwerth mewn gofal iechyd yn annog ffocws cynyddol ar ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau a rheoli eu disgwyliadau, eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch eu hiechyd a'u gofal, a defnyddio adnoddau'n greadigol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu gwario yn y ffordd orau i wella canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau (Llywodraeth Cymru, 2022). Yn unol â hynny, tynnodd rhanddeiliaid sylw at yr angen i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol i ddarparu gofal iechyd cynaliadwy sy'n cael ei arwain gan anghenion.
- 2.19 Y trydydd canlyniad hirdymor yw **diwylliant o roi ansawdd wrth wraidd y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau**. Nododd rhanddeiliaid y byddai newid diwylliant yn cymryd amser. Byddai'n cael ei gyflawni'n rhannol drwy ddealltwriaeth well o ansawdd gwasanaethau a'r hyn sy'n ei bennu ymhlith staff perthnasol y GIG a Llywodraeth Cymru, a gweithgareddau hyfforddi, adrodd a chyfathrebu. Dywedwyd hefyd bod arweinyddiaeth gref wrth wraidd cyflawni'r canlyniad hwn, yn ogystal â chanlyniadau tymor byr i ganolig alinio polisïau, gweithdrefnau, seilwaith ac ymddygiad cyrff y GIG, a pholisi ac arferion Llywodraeth Cymru, â'r ddyletswydd ansawdd.

Canlyniadau anfwriadol

2.20 Er nad yw'r rhain wedi'u cynnwys yn Ffigur 1, nododd rhanddeiliaid nifer o ganlyniadau anfwriadol posibl a allai ddeillio o weithredu'r ddyletswydd ansawdd. Amlygodd rhanddeiliaid mai posibiladau yn unig yw'r canlyniadau anfwriadol hyn, ac y gallai rhai fod yn negyddol, yn dod i'r amlwg ar y ffordd i gyflawni canlyniadau cadarnhaol:

- Gallai'r ddyletswydd ansawdd roi pwysau ychwanegol ar ddarparwyr gofal iechyd drwy'r gwaith cynyddol a allai ddeillio o'i gweithredu. Gallai hyn fod yn wrthgynhyrchiol a pheryglu niwed i enw da gwasanaethau os bydd staff yn cael eu gorlwytho i'r fath raddau fel ei fod yn achosi problemau diogelwch.
- Nododd rhanddeiliaid y gallai cadw staff y GIG ddod yn fwy heriol yn y tymor byr oherwydd pwysau cynyddol. Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid hefyd y gallai recriwtio a chadw staff y GIG wella yn y tymor hwy oherwydd y pwyslais cynyddol ar ansawdd (a diogelwch). Ar hyn o bryd, roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod rhai o staff y GIG yn gadael oherwydd y rhwystredigaeth o fethu â gwneud newidiadau i wella ansawdd gofal iechyd.
- Roedd rhanddeiliaid yn rhagweld cynnydd mewn ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, a allai arwain at fwy o waith i staff perthnasol y GIG.
- Nododd rhanddeiliaid y potensial ar gyfer costau uwch yn y tymor byrrach pan oedd y ddyletswydd ansawdd yn cael ei chyflwyno, er gwaethaf y disgwyliad y bydd arbedion cost yn y tymor hwy trwy ffocws cynyddol ar ofal iechyd diogel, effeithiol ac effeithlon.

Rhwystrau a hwyluswyr

2.21 Roedd rhanddeiliaid yn gweld diffyg eglurder ynghylch y disgwyliadau ar staff mewn gwahanol sefydliadau, megis Llywodraeth Cymru, AGIC, a byrddau iechyd, o ran y gwaith o weithredu'r ddyletswydd ansawdd. Fodd bynnag, ers y gweithdai a'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid, mae'r [canllawiau statudol](#) wedi'u cyhoeddi, a ddylai helpu i egluro rolau a chyfrifoldebau.

2.22 Nododd rhanddeiliaid fod gweithredu'r ddyletswydd ansawdd yn cael ei gyfyngu gan yr hyn y gellir yn rhesymol ddisgwyl i wasanaethau iechyd ei ddarparu. Er enghraifft,

mae gwasanaethau iechyd eisoes yn darparu llawer o wybodaeth am berfformiad i fyrddau a phwyllgorau. Amlygwyd yr angen iddynt ystyried sut y gallant ymgorffori gofynion adrodd, gwybodaeth a chyfathrebu penodol y ddyletswydd ansawdd yn eu harferion busnes fel arfer heb unrhyw gyllid penodol ar gyfer hyn.

- 2.23 Hwylusydd posibl i weithredu'r ddyletswydd ansawdd oedd bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel "esiampI" i'r sefydliadau perthnasol, gan sicrhau bod ansawdd yn llywio ei holl benderfyniadau a pholisïau. Teimlwyd bod angen hyn i gyflawni'r ffocws gofynnol ar wella ansawdd ymhlith y sefydliadau perthnasol. Dywedwyd hefyd bod pwysigrwydd arweinyddiaeth gref ar bob lefel ledled y GIG yn hwylusydd allweddol.
- 2.24 Rhwystr a hwylusydd i weithredu'r ddyletswydd ansawdd a rhannau eraill o'r Ddeddf oedd yr amser yr oedd gan y GIG i baratoi ar ei chyfer. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod angen digon o amser ar y GIG i baratoi, ond roeddent yn amau a fyddai hyn yn digwydd. Mae hyn yn gysylltiedig â chanlyniad anfwriadol rhoi pwysau ychwanegol ar ddarparwyr gofal iechyd.
- 2.25 Dywedwyd mai rhwystr arall oedd y prinder parhaus yn y gweithlu nyrsio. Nododd rhanddeiliaid fod hon yn broblem systemig a oedd hefyd yn cyfyngu ar weithrediad ac effaith dyletswyddau a deddfwriaethau cysylltiedig eraill.
- 2.26 Nodwyd hefyd yr angen am fwy o gydweithio a gweithio integredig rhwng byrddau iechyd a phartneriaid megis gwasanaethau cymdeithasol i wella ansawdd gwasanaethau.

Mesurau canlyniadau a ffynonellau data posibl

- 2.27 Mae'r tabl canlynol yn nodi mesurau canlyniadau a ffynonellau data posibl ar gyfer gwerthuso'r ddyletswydd ansawdd:

Tabl 1: Mesurau canlyniadau a ffynonellau data posibl ar gyfer gwerthuso'r ddyletswydd ansawdd

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn nodi angen newydd posibl o ran casglu data)
<p>Tymor byr: Mae aelodau'r cyhoedd yn fwy gwybodus am yr hyn y mae ansawdd gwasanaethau iechyd yn ei olygu, a sut mae eu gwasanaethau lleol yn perfformio o ran ansawdd.</p>	<p>Dealltwriaeth y cyhoedd o ystyr ansawdd mewn gwasanaethau iechyd.</p> <p>Ehangder gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau iechyd lleol ymhlith aelodau'r cyhoedd.</p>	<p>Arolwg Cenedlaethol Cymru (Arolwg Cenedlaethol o hyn ymlaen)³ (cwestiynau newydd): A ydych wedi ceisio canfod sut mae gwasanaethau iechyd yn perfformio ac, os felly, pa mor ddefnyddiol oedd yr wybodaeth hon;</p> <p>(cwestiynau presennol) a allwch ddarganfod sut mae gwasanaethau iechyd lleol yn perfformio; a hoffech gael rhagor o wybodaeth am sut y mae gwasanaethau iechyd lleol yn perfformio.</p> <p>*Ymchwil ansoddol gydag aelodau o'r cyhoedd.</p>

³ Cynhelir Arolwg Cenedlaethol Cymru gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys sampl gynrychioliadol o tua 12,000 o bobl bob blwyddyn ac yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau. Mae'n cael ei weithredu dros y ffôn ac ar-lein ar hyn o bryd ond mae wedi bod wyneb yn wyneb yn y gorffennol ac efallai y bydd eto yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael dudalen we [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#).

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn nodi angen newydd posibl o ran casglu data)
<p>Tymor byr: Gwell dealltwriaeth ymhlith holl staff perthnasol y GIG a Llywodraeth Cymru o feysydd a galluogwyr ansawdd; sut mae gwasanaethau iechyd yn gwneud o ran ansawdd; a sut y gall hyn ysgogi eu gweithgareddau.</p>	<p>Ehangder dealltwriaeth ymhlith staff perthnasol o barthau a galluogwyr ansawdd.</p> <p>Ehangder dealltwriaeth ymhlith staff perthnasol o sut mae gwasanaethau iechyd yn perfformio o ran ansawdd, a sut y gall hyn ysgogi eu gwaith.</p> <p>A yw trafodaethau am ansawdd yng nghyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau'r GIG, ac mewn cyfarfodydd rhwng Llywodraeth Cymru a'r GIG, yn adlewyrchu meysydd a galluogwyr ansawdd (dylid cyfeirio at ddata ar berfformiad gwasanaethau iechyd) ac yn cymhwyso'r rhain i ysgogi gweithgareddau.</p>	<p>Nodiadau cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau'r GIG (*gellid cyflwyno blwch ticio i benderfynu a oes trafodaethau ansawdd yn cael eu cynnal. Gallai dadansoddiad ansoddol o gynnwys trafodaethau ychwanegu dyfnder.)</p> <p>Arolwg staff y GIG:⁴</p> <p>Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu cwestiynau arolwg newydd i staff y GIG i asesu dealltwriaeth staff o berfformiad gwasanaethau iechyd o ran ansawdd, a sut y gall hyn lywio eu gwaith.</p> <p>*Ymchwil ansoddol gyda staff perthnasol y GIG a Llywodraeth Cymru.</p>
<p>Tymor byr: Mae holl staff y GIG yn meddwl am ansawdd a gwella ansawdd.</p>	<p>I ba raddau y mae staff y GIG yn meddwl am ansawdd a gwella ansawdd.</p>	<p>*Ymchwil ansoddol gyda staff y GIG.</p> <p>Arolwg staff y GIG:</p> <p>Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu cwestiwn newydd i asesu i ba raddau y mae staff y GIG yn meddwl am</p>

⁴ Mae arolwg staff y GIG yn casglu barn a phrofiadau staff y GIG am weithio yn eu sefydliadau. Cyhoeddir canlyniadau ar gyfer sefydliadau GIG unigol. Cyhoeddir canlyniadau lefel genedlaethol gyda dadansoddiad yn ôl math o sefydliad, grŵp staff, a nodweddion demograffig. Mae rhai cwestiynau presennol ar arolwg staff y GIG yn mynd i'r afael â'r canlyniadau a'r mesurau canlyniadau a awgrymir yn y tablau yn yr adroddiad hwn. Os yw'n ymarferol, gellid ystyried arolwg staff GIG pwrpasol lle nad yw cwestiynau yn yr arolwg staff presennol yn darparu'r data angenrheidiol.

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn nodi angen newydd posibl o ran casglu data)
		ansawdd a gwella ansawdd.
Tymor byr: Mae gwybodaeth am ansawdd gwasanaethau iechyd ar gael ac yn hygyrch yn amserol.	I ba raddau y trefnir bod gwybodaeth ar gael i amrywiaeth o gynulleidfaedd yn amserol. I ba raddau y mae'r wybodaeth yn diwallu anghenion y rhai sydd am ei defnyddio ac yn hygyrch iddynt.	Adroddiadau blynyddol ac adroddiadau 'ar waith bob amser' ar ansawdd <i>*Ymchwil ansoddol gydag aelodau o'r cyhoedd.</i> <i>*Ymchwil ansoddol gyda chynulleidfaedd eraill i gael gwybodaeth am ansawdd gwasanaethau iechyd, e.e. AGIC, Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru, Unedau Cyflawni'r GIG, Gwelliant Cymru.</i>
Tymor byr: Trafodaethau mwy gwybodus, â ffocws, a mwy strwythuredig rhwng Llywodraeth Cymru a chyrrff y GIG ynghylch ansawdd gwasanaethau iechyd.	I ba raddau y cynhelir trafodaethau mwy gwybodus, â ffocws, a strwythuredig rhwng Llywodraeth Cymru a chyrrff y GIG ynghylch ansawdd gwasanaethau iechyd	Cofnodion cyfarfodydd rhwng Llywodraeth Cymru a chyrrff y GIG, cyn ac ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym. <i>*Ymchwil ansoddol gyda staff perthnasol o Lywodraeth Cymru a chyrrff y GIG.</i>
Tymor byr-canolig: Mae polisiâu, gweithdrefnau, seilwaith ac ymddygiad cyrrff y GIG yn cyd-fynd â'r ddyletswydd ansawdd	I ba raddau y mae cyrrff y GIG yn gwneud penderfyniadau polisi sy'n cyd-fynd â'r ddyletswydd ansawdd	Dogfennau polisi a gweithdrefnau cyrrff y GIG. <i>*Ymchwil ansoddol gyda staff y GIG.</i>
Tymor byr-canolig: Mae polisi a chyfeiriad Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r ddyletswydd ansawdd	I ba raddau y mae dogfennau strategaeth a pholisi Llywodraeth Cymru	Dogfennau strategaeth a pholisi Llywodraeth Cymru

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn nodi angen newydd posibl o ran casglu data)
	yn cyd-fynd â'r ddyletswydd ansawdd	
Tymor canolig: Mwy o hyder ymhlith defnyddwyr gwasanaethau yn ansawdd gwasanaethau iechyd	Ehangder hyder defnyddwyr gwasanaethau yn ansawdd gwasanaethau iechyd	Arolwg Cenedlaethol (cwestiwn presennol): barn ar gyflwr gwasanaethau iechyd yng Nghymru. <i>*Ymchwil ansoddol gyda defnyddwyr gwasanaethau.</i>
Tymor canolig: Mae defnyddwyr gwasanaethau yn cael profiad gwell o wasanaethau iechyd	Bodlonrwydd defnyddwyr gwasanaethau â'r gwasanaethau iechyd y maent wedi'u derbyn	Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion ⁵ Arolwg Cenedlaethol (cwestiynau presennol): boddhad â gofal iechyd/gwasanaethau a ddefnyddir. <i>*Data CIVICA⁶ ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau</i> <i>*Ymchwil ansoddol gyda defnyddwyr gwasanaethau.</i>
Tymor canolig: Gwasanaethau iechyd diogel, amserol, effeithiol, effeithlon a theg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn	I ba raddau y mae gwasanaethau iechyd yn ddiogel, yn amserol, yn effeithiol, yn effeithlon ac yn deg ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn	Adroddiadau arolygu AGIC Adroddiadau ansawdd blynyddol ac adroddiadau "ar waith bob amser"
Tymor hir: Gwell canlyniadau iechyd i'r boblogaeth	Canlyniadau iechyd defnyddwyr gwasanaethau	Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion ⁷

⁵ Mae Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion yn mesur profiadau cleifion o ofal y GIG.

⁶ Mae CIVICA yn system adborth a roddwyd ar waith yn ddiweddar ar draws byrddau iechyd Cymru. Mae'n casglu adborth cleifion ar sawl agwedd ar eu profiad. Nid yw graddau'r gorgyffwrdd rhwng y data profiad cleifion a gesglir trwy CIVICA a data Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion yn glir.

⁷ Mae [Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion](#) yn mesur cynnydd iechyd cleifion y GIG sy'n cael llawdriniaethau penodol.

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn nodi angen newydd posibl o ran casglu data)
		Mae ystod o ddata iechyd y boblogaeth ar gael y gellid ei ddefnyddio i fesur y canlyniad hwn. Byddai angen trafodaethau ynghylch yr elfennau data sydd fwyaf priodol i'w defnyddio
Tymor hir: Gofal iechyd mwy darbodus a chynaliadwy o werth gwell	Mesurau canlyniadau lluosog, y mae data eisoes yn cael ei gasglu arnynt yn fwy cyffredinol	Ffynonellau data presennol sy'n ymwneud â'r canlyniadau hyn
Tymor hir: Diwylliant o osod ansawdd wrth wraidd y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau	I ba raddau y mae diwylliant o roi ansawdd wrth wraidd y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau	Arolwg staff y GIG: Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu cwestiynau newydd i asesu i ba raddau y mae diwylliant o roi ansawdd wrth wraidd y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau ⁸

Gwerthuso gweithrediad

2.28 Mae ffynonellau data posibl a allai helpu i werthuso gweithrediad (gweithgareddau) y ddyletswydd ansawdd yn gorgyffwrdd yn sylweddol â'r rhai yn y tabl canlyniadau uchod. Maent yn cynnwys y canlynol:

- cyfathrebu lleol a chenedlaethol ynghylch diben y ddyletswydd a'r cynnydd o ran gweithredu
- cynnwys hyfforddiant, cyngor ac adnoddau ar gyfer staff perthnasol y GIG a Llywodraeth Cymru

⁸ Mae [Arolwg Ysbytai Awstralia ar Ddiwylliant Diogelwch Cleifion](#) yn cynnwys nifer o gwestiynau ar hyn, y gellid eu haddasu a'u hystyried i'w defnyddio yng nghyd-destun GIG Cymru.


- nodiadau a chofnodion cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau'r GIG
- dogfennau polisi a strategaeth Llywodraeth Cymru
- dogfennaeth ac adroddiadau arolygu AGIC
- adroddiadau ansawdd blynyddol ac adroddiadau "ar waith bob amser"
- ymchwil ansoddol gyda'r cyhoedd, a staff perthnasol y GIG, Llywodraeth Cymru, AGIC a Gwelliant Cymru

3. Y ddyletswydd gonestrwydd

Y ddamcaniaeth newid

- 3.1 Cyflwynir y ddamcaniaeth newid ar gyfer y ddyletswydd gonestrwydd isod.

Ffigur 2: Y ddamcaniaeth newid ar gyfer y ddyletswydd gonestrwydd



Gweithgareddau

3.2 Y gweithgareddau allweddol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r ddyletswydd gonestrwydd yw fel a ganlyn:

- **Cyfathrebu cyhoeddus a gwybodaeth glir am y ddyletswydd gonestrwydd: beth mae'n ei olygu; beth i'w ddisgwyl pan gaiff ei hystyried neu ei sbarduno; cwestiynau cyffredin** Teimlai rhanddeiliaid y gallai Corff Llais y Dinesydd hefyd hwyluso'r gweithgaredd hwn fel rhan o'i ryngweithio â'r cyhoedd.
- **Cydnabyddiaeth brydlon i'r defnyddiwr gwasanaeth ar adeg dod yn ymwybodol am y tro cyntaf o ddigwyddiad y mae angen ei ystyried o dan y ddyletswydd gonestrwydd.** Dylai'r hysbysiad cychwynnol fod yn wyneb yn wyneb gyda chamau dilynol ysgrifenedig. Rhoddodd rhanddeiliaid rai enghreifftiau o sut y gallai'r broses weithio'n ymarferol. Er enghraifft, efallai y bydd yn rhaid i ymarferydd sy'n gwneud camgymeriad cyffuriau ddatgelu hyn i'r claf ar unwaith. Efallai y bydd angen i feddyg wedyn wneud rhai profion gwaed. Yna gall yr ymarferydd sydd wedi gwneud y camgymeriad esbonio'r digwyddiad i'r meddyg, gan ei gwneud yn glir ei fod wedi trafod y digwyddiad gyda'r claf. Efallai y bydd angen i reolwr yr ymarferydd ymchwilio i ganfod a fu unrhyw wallau tebyg ac, os felly, cymryd camau priodol. Nododd rhanddeiliaid efallai nad yr ymarferydd a wnaeth y camgymeriad o reidrwydd fydd y cyswllt arweiniol ar gyfer teulu defnyddiwr y gwasanaeth.
- **Mae cyrff y GIG yn dilyn y weithdrefn yn y rheoliadau pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei hystyried neu ei sbarduno:**
 - **Hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd dros y ffôn neu drwy alwad fideo, neu wyneb yn wyneb**
 - **Egluro beth sydd wedi digwydd**
 - **Ymddiheuro**
 - **Egluro'r camau nesaf**
 - **Cynnig cymorth**

- **Rhoi manylion cyswllt**
- **Darparu manylion yn ysgrifenedig (o fewn amserlen benodedig)**

Nododd rhanddeiliaid y dylai cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau ynghylch y ddyletswydd gonestrwydd gael ei alinio â'u hanghenion a'u dewisiadau iaith a chyfathrebu: er enghraifft, peidio â gwneud y cyswllt cyntaf â defnyddiwr gwasanaeth byddar dros y ffôn.

- **Mae achosion lle mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei hystyried yn cael eu hadolygu'n fewnol gan sefydliadau i benderfynu a yw'r ddyletswydd wedi'i sbarduno.** Byddai disgwyl i hyn ddilyn proses gadarn a chyson.
- **Mae cyrff y GIG yn cofnodi'n gyson achosion lle mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno** gan ddefnyddio'r system adrodd digwyddiadau briodol.
- **Mae cyrff y GIG yn ymchwilio'n gyson i achosion o dan y broses Gweithio i Wella pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno,** yn unol â [Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn\) \(Cymru\) 2011](#), sy'n amlinellu'r broses [Gweithio i Wella](#) ar gyfer mynegi pryderon (cwyn, hawliad neu ddigwyddiad diogelwch cleifion yr adroddwyd amdano) am driniaeth neu wasanaethau'r GIG yng Nghymru, neu drefniadau deddfwriaethol yn y dyfodol.
- **Mae pwyllgorau sefydliadol perthnasol yn adolygu achosion i nodi'r dysgu a'r gwelliannau sydd eu hangen.** Gall pwyllgorau sefydliadol fod yn bwyllgorau y mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn gylch gwaith penodol iddynt neu'n bwyllgorau ansawdd a diogelwch presennol.
- **Bydd adroddiadau blynyddol cyrff y GIG ar gyfer y ddyletswydd gonestrwydd yn cofnodi nifer yr achosion lle mae'r ddyletswydd wedi'i sbarduno a'r camau a gymerwyd i atal hyn rhag digwydd eto.** Hwylusir gwaith cofnodi, adrodd a dogfennu cyson ar gyfer achosion lle mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno gan y [canllawiau statudol](#) a dogfennau ategol, sy'n esbonio'n glir y mathau o ddigwyddiadau a fyddai'n

sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd, ac sy'n darparu enghreifftiau ac astudiaethau achos. Bydd hefyd yn cael ei gefnogi gan y pecyn hyfforddi ar-lein, sy'n cael ei ddatblygu i gefnogi cyrff y GIG i roi'r ddyletswydd ar waith.

- **Hyfforddiant ac arweiniad wedi'u teilwra ar-lein ac wyneb yn wyneb ar gyfer yr holl staff a chontractwyr ar reoli achosion o dan y ddyletswydd gonestrwydd a'u cofnodi gan ddefnyddio system Unwaith i Gymru Datix Cymru.**⁹ Amlygodd rhanddeiliaid y byddai'r hyfforddiant yn lleihau goddrychedd ac amrywiadau rhwng unigolion a gwasanaethau o ran sut mae gwybodaeth am ddigwyddiadau sy'n sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei chofnodi. Nodwyd hefyd y dylai anelu at hysbysu staff a chontractwyr am fanteision y ddyletswydd gonestrwydd a lleddfu unrhyw bryderon ynghylch y llwyth gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â'i gweithredu. Awgrymodd rhanddeiliaid y dylid penodi arweinwyr dyletswydd gonestrwydd ym mhob bwrdd iechyd i arwain ar hyfforddiant a chanllawiau, a gwaith gweithredu ehangach.

3.3 Mae'r gweithgareddau'n cysylltu â chanlyniadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor arfaethedig y ddyletswydd, sy'n cael eu harchwilio yn eu tro isod. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod cyflawni'r holl ganlyniadau tymor byr, canolig a hir yn dibynnu ar symudiad diwylliannol tuag at fod yn agored ac yn onest, dealltwriaeth well o faterion sy'n arwain at niwed y gellir ei osgoi, a dysgu a gwella bob amser, ar bob lefel o'r GIG yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o deimlad bod angen gwella'r prosesau presennol ar gyfer dysgu, a rhannu dysgu, o fewn ac ar draws lleoliadau gofal sylfaenol ac eilaidd, o fewn byrddau iechyd, a ledled Cymru.

Canlyniadau tymor byr

3.4 Canlyniad tymor byr cyntaf y ddyletswydd gonestrwydd yw bod gan **ddefnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi niwed fwy o ymddiriedaeth yn y staff gofal iechyd perthnasol, a gwell cyfathrebu a pherthnasoedd â nhw.** Mae proses y ddyletswydd gonestrwydd yn pwysleisio bod cyfathrebu effeithiol a phersonol yn

⁹ Mae Unwaith i Gymru yn rhaglen system rheoli pryderon sydd â'r nod o ddod â chysondeb i'r defnydd o'r offer electronig a ddefnyddir gan holl gyrff iechyd GIG Cymru. Mae Datix Cymru yn rhan o system rheoli pryderon Unwaith i Gymru. Mae Datix yn System Gwybodaeth Rheoli Risg i gasglu a rheoli data ar ddigwyddiadau niweidiol, yn ogystal â data ar gwynion, hawliadau a risg.

allweddol i feithrin ymddiriedaeth rhwng staff gofal iechyd a defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi niwed.

- 3.5 Teimlai rhai rhanddeiliaid mai hwn oedd y canlyniad tymor byr pwysicaf. Elfennau allweddol o'r broses y nododd rhanddeiliaid y gallent hwyluso hyn yw hysbysiadau prydlon, "wyneb yn wyneb" (wedi'u dilyn gan hysbysiadau ysgrifenedig), darparu cyswllt personol – er enghraifft, cynnwys llofnod mewn llawysgrifen ar lythyrau – a gwneud ymddiheuriad ystyrlon a phersonol. Gall peidio â hysbysu defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi niwed yn agored ac yn onest o'r cychwyn cyntaf wneud iddynt golli ymddiriedaeth, ysgogi teimladau o ddicter, a'u gwneud yn fwy tebygol o gwyno neu gymryd camau cyfreithiol.
- 3.6 Yn ogystal, pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd cyfathrebu a gwybodaeth gyhoeddus, gan gynnwys negeseuon ac esboniad clir i sicrhau dealltwriaeth.
- 3.7 Yr ail ganlyniad tymor byr yw bod **defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi niwed yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, bod rhywun yn gwranddo arnynt, a'u bod yn cael eu hysbysu, eu grymuso a'u cefnogi pan aiff pethau o chwith.** Teimlai rhanddeiliaid fod cysylltiad agos rhwng y canlyniad hwn a'r canlyniad tymor byr cyntaf. Pan nad yw defnyddwyr gwasanaethau yn dymuno cyfathrebu ymhellach â chyrrff y GIG am y digwyddiad, dylid cofnodi hyn hefyd, a dylid parchu dymuniadau'r unigolyn, yn unol â'r [canllawiau](#). Teimlai rhanddeiliaid y gallai fod yn rymusol i staff gwasanaethau iechyd ofyn i ddefnyddiwr gwasanaeth (a'i ofalwr neu deulu, os yn berthnasol) sut yr hoffai i'r gwasanaeth iechyd fynd i'r afael â'r digwyddiad a sbardunodd y ddyletswydd gonestrwydd, a sut (os o gwbl) a pha mor aml yr hoffai i ni gysylltu ag ef yn ei gylch.
- 3.8 Y trydydd canlyniad tymor byr yw **cofnod cynhwysfawr o achosion lle sbardunwyd y ddyletswydd gonestrwydd.** Mae hyn yn gysylltiedig â'r gwelliannau cydamserol mewn adrodd a gychwynwyd gan y [Polisi Cenedlaethol ar Adrodd am Ddigwyddiadau Diogelwch Cleifion](#) newydd a'r broses [Gweithio i Wella](#) ar gyfer ymchwilio i bryderon a nodir yn [Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn\) \(Cymru\) 2011](#). Mae esboniad o'r broses ar gyfer cofnodi digwyddiadau sy'n sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd, ac yn wir y

rhai nad ydynt yn sbarduno'r ddyletswydd ond lle ystyriwyd ei sbarduno, yn cael ei ddarparu yn y [canllawiau statudol](#).

- 3.9 Bydd Datix Cymru neu system gyfatebol yn cael ei defnyddio ar gyfer cofnodi ddigwyddiadau ac adrodd amdanynt. Mae anogwr ar system Datix Cymru i ofyn i'r rhai sy'n cwblhau a/neu'n adolygu'r adroddiad digwyddiad a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno ai peidio ac i gofnodi lefel y niwed. Mae'r system hefyd yn hwyluso dogfennu'r rhesymau pam na chafodd y ddyletswydd ei sbarduno.
- 3.10 Nododd rhanddeiliaid fod Datix Cymru eisoes yn cael ei ddefnyddio'n eang mewn byrddau iechyd ledled Cymru, ond nid o reidrwydd gan contractwyr annibynnol. Gallai hyn o bosibl arwain at broblemau o ran cofnodi'n gyson achosion lle mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno, y teimlent y gellid eu goresgyn o bosibl drwy wneud defnyddio Datix Cymru yn ofyniad contractiol.
- 3.11 Y pedwerydd canlyniad tymor byr yw **gwell dealltwriaeth ar lefel gwasanaeth a bwrdd iechyd o amgylchiadau digwyddiadau sy'n arwain at niwed y gellir ei osgoi – mewn achosion unigol ac unrhyw batrymau ar draws achosion**. Hwylusir hyn drwy gofnodi, ymchwilio, dogfennu ac adolygu achosion lle mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno, yn ogystal â rhannu'r hyn a ddysgir ar bob lefel o'r GIG yng Nghymru.
- 3.12 Y pumed canlyniad tymor byr yw bod **staff perthnasol ar lefel gwasanaeth a bwrdd iechyd yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud gwelliannau i fynd i'r afael â digwyddiadau sy'n arwain at niwed y gellir ei osgoi** yn seiliedig ar ddysgu o ymchwiliadau lle mae'r ddyletswydd wedi'i sbarduno. Byddai gwelliannau'n cael eu hwyluso gan y prosesau a systemau adolygu lleol y bydd cyrff y GIG yn eu datblygu wrth weithredu'r ddyletswydd gonestrwydd a'r diwylliant a'r prosesau ar gyfer dysgu a gwella sydd ar waith o fewn gwasanaethau penodol ac ar draws byrddau iechyd.
- 3.13 Y chweched canlyniad tymor byr yw **bod yr holl staff gofal sylfaenol ac eilaidd yn fwy hyderus a chyson wrth adrodd am ddigwyddiadau**. Teimlai rhanddeiliaid mai hwn oedd y trydydd canlyniad tymor byr pwysicaf, y tu ôl i "bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi niwed fwy o ymddiriedaeth yn y staff gofal iechyd perthnasol, a gwell cyfathrebu a pherthynas â nhw" (1^{af}), a "defnyddwyr

gwasanaethau yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, bod rhywun yn gwranddo arnynt, a'u bod yn cael eu hysbysu, eu grymuso a'u cefnogi pan aiff pethau o chwith" (2^{ail}). Cefnogir y canlyniad hwn gan y [canllawiau statudol](#), sy'n manylu ar y broses adrodd ar y ddyletswydd gonestrwydd, a thrwy hyfforddiant a dysgu parhaus. Roeddent hefyd yn cysylltu mwy o hyder ymhlith staff â chael cefnogaeth eu sefydliad wrth adrodd a thrafod digwyddiadau sy'n sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd, ac â diwylliant o fod yn agored ac yn onest. Nododd rhai rhanddeiliaid fod adrodd am ddigwyddiadau wedi bod yn llai cyson ym maes gofal sylfaenol.

- 3.14 Awgrymodd rhanddeiliaid y byddai'r ddarpariaeth i gofnodi digwyddiadau'n gyson gan ddefnyddio Datix Cymru (fel y trafodwyd o dan y trydydd canlyniad tymor byr) yn annog ac yn atgoffa staff i gael sgysiau â defnyddwyr gwasanaethau am ddigwyddiadau sy'n sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd.

Canlyniadau tymor canolig

- 3.15 Y canlyniad tymor canolig cyntaf yw **bod gan y cyhoedd fwy o ymddiriedaeth a hyder mewn sefydliadau gofal iechyd**. Teimlai rhanddeiliaid mai hwn oedd y canlyniad tymor canolig pwysicaf, ynghyd â'r ail un, gan nodi y dylid gosod defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd y ddyletswydd gonestrwydd.
- 3.16 Yr ail ganlyniad tymor canolig yw **gwell rhyngweithio a chydgyhyrchu rhwng clinigwyr a defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi niwed**. Cysylltodd rhanddeiliaid y canlyniad hwn â staff gofal iechyd yn dod yn fwy medrus wrth ymdrin â digwyddiadau sy'n sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd yn unol â'r broses a nodir. Gwnaethant hefyd nodi bod y canlyniad hwn yn adlewyrchu perthynas fwy cyfartal, gonest ac agored a ddatblygwyd trwy gyfathrebu am ddigwyddiadau sy'n sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd. Rhybuddiodd rhanddeiliaid, os nad yw rhyngweithio a chydgyhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd ynghylch y ddyletswydd gonestrwydd yn gwella'n ddigonol, y gallai hyn arwain at lefelau uwch o gwynion.
- 3.17 Y trydydd canlyniad tymor canolig yw **gwell dealltwriaeth drwy'r GIG yng Nghymru o faterion sy'n arwain at niwed y gellir ei osgoi**. Byddai nodi materion a phatrymau ailadroddus, yn hytrach na digwyddiadau unigol, yn arbennig o allweddol i gyflawni'r ddealltwriaeth hon.

- 3.18 Y pedwerydd canlyniad tymor canolig yw **bod staff perthnasol ledled y GIG yng Nghymru yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud gwelliannau i fynd i'r afael â digwyddiadau sy'n arwain at niwed** yn seiliedig ar ddysgu o ymchwiliadau lle mae'r ddyletswydd wedi'i sbarduno. Mae hwyluswyr y trydydd a'r pedwerydd canlyniad tymor canolig yn debyg i'r rhai a nodir ar gyfer y canlyniadau tymor byr cysylltiedig, ond ar lefel Cymru gyfan.
- 3.19 Y pumed canlyniad tymor canolig yw **gostyngiad yn nifer yr achosion lle mae niwed cymedrol neu ddifrifol y gellir ei osgoi ar lefel gwasanaeth a/neu fwrdd iechyd**. Mae hyn yn dibynnu ar y canlyniad tymor canolig ynghylch staff y GIG yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud gwelliannau i fynd i'r afael â digwyddiadau sy'n arwain at niwed, ac ar roi'r diwylliant a'r prosesau ar gyfer dysgu a gwella ar waith. Mae'n bwysig nodi y gall fod anghysondeb rhwng nifer yr achosion a adroddwyd (sy'n hysbys) ac achosion gwirioneddol (sy'n anhysbys). Gallai gwelliannau o ran cofnodi ac adrodd am ddigwyddiadau, a allai gael eu hategu gan y ffocws ychwanegol y mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn ei roi ar adrodd, wneud iddo ymddangos fel petai nifer y digwyddiadau wedi cynyddu, ond efallai nad yw hyn yn wir mewn gwirionedd. Yn ogystal, mae canfod nifer yr achosion lle mae niwed cymedrol neu ddifrifol y gellir ei osgoi yn gymhleth oherwydd nad yw defnyddio Datix Cymru yn orfodol i gontractwyr annibynnol. Mae gan y materion hyn oblygiadau ar gyfer gwerthuso hefyd, fel y trafodwyd yn Adran 6.

Canlyniadau tymor hir

- 3.20 Y canlyniad hirdymor cyntaf yw **gwell rhyngweithio a chydgyhyrchu rhwng clinigwyr a defnyddwyr gwasanaethau yn fwy cyffredinol**. Mae hyn yn gysylltiedig â'r ail ganlyniad tymor canolig ond mae'n ei ymestyn i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn fwy cyffredinol nad ydynt efallai wedi profi niwed. Awgrymodd rhanddeiliaid y gallai hyn ddigwydd ar lafar (h.y. defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi niwed yn siarad â'u teulu a'u ffrindiau).
- 3.21 Yr ail ganlyniad hirdymor yw **gwell ansawdd, diogelwch a phrofiad i ddefnyddwyr gwasanaethau a staff**. Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy well rhyngweithio, gwelliannau a wneir i fynd i'r afael â digwyddiadau sy'n arwain at niwed y gellir ei osgoi, a gostyngiad yn nifer yr achosion o niwed y gellir ei osgoi.

3.22 Y trydydd canlyniad hirdymor yw **llai o gwynion ac ymgyfreitha gan ddefnyddwyr gwasanaethau, yn gyffredinol ac yn arbennig mewn perthynas â materion a ailadroddir**. Mae'r [canllawiau ar y ddyletswydd gonestrwydd](#) yn pwysleisio bod cyfathrebu gwael neu wedi'i oedi yn debygol o arwain at ddefnyddwyr gwasanaethau yn gwneud cwynion neu'n cymryd camau cyfreithiol a gallai hefyd olygu nad ydynt yn teimlo bod y broses wedi bod yn agored ac yn onest o'r cychwyn cyntaf. Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid y gallai fod cynnydd cychwynnol yn nifer y cwynion ac ymgyfreitha ar ôl gweithredu'r ddyletswydd gonestrwydd, cyn iddynt ddechrau lleihau dros y tymor hwy. Mae hyn yn gysylltiedig â chodi ymwybyddiaeth a phobl yn cael eu hysbysu'n fwy cyson pan aiff pethau o chwith.

3.23 Y pedwerydd canlyniad hirdymor yw **gostyngiad yn nifer yr achosion lle ceir niwed cymedrol neu ddifrifol y gellir ei osgoi ledled y GIG yng Nghymru**.

Canlyniadau anfwriadol

3.24 Er nad yw'r rhain wedi'u cynnwys yn Ffigur 2, nododd rhanddeiliaid nifer o ganlyniadau anfwriadol posibl a allai ddeillio o weithredu'r ddyletswydd gonestrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Fel yr amlinellwyd eisoes, cynnydd cychwynnol yn nifer yr achosion a adroddwyd lle ceir niwed cymedrol neu ddifrifol.
- O bosibl, mwy o achosion gwneud iawn (yn gysylltiedig â chynnydd cychwynnol yn nifer yr achosion a adroddwyd lle ceir niwed cymedrol neu ddifrifol), ac effaith ariannol hyn. Teimlai rhanddeiliaid ei bod yn anodd rhagweld maint y cynnydd mewn achosion a'r effaith ariannol gysylltiedig.
- Mae'n bosibl y bydd cynnydd mewn cyhoeddusrwydd negyddol gan ddefnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr neu eu teuluoedd yn dilyn gweithredu'r ddyletswydd oherwydd bod defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu hysbysu'n fwy cyson pan aiff pethau o chwith.
- Gall y GIG gael ei roi dan straen ychwanegol oherwydd y gofyniad i weithredu'r ddyletswydd gonestrwydd, a allai arwain at aelodau'r gweithlu yn gadael. Mae'n bosibl y bydd gweddill y staff wedi ymddieithrio neu'n teimlo bod newidiadau'n cael eu gorfodi arnynt oherwydd y pwysau llwyth gwaith

ychwanegol. Ar y llaw arall, awgrymwyd hefyd y gallai staff ddod yn fwy bodlon yn eu gwaith, ac ymgysylltu ag ef, drwy fod yn allweddol i wella diogelwch gwasanaethau iechyd.

Rhwystrau a hwyluswyr

- 3.25 Nododd rhanddeiliaid sawl rhwystr i weithredu'r ddyletswydd gonestrwydd. Yn gyntaf, nododd rhanddeiliaid y gallai gweithredu prosesau ychwanegol a'r gwaith cysylltiedig i newid ymddygiad a diwylliant roi straen ar system sydd eisoes dan bwysau a staff dan bwysau, yn enwedig o fewn sefydliadau mwy a lleoliadau gofal sylfaenol. Gall hyn olygu bod staff gwasanaethau iechyd yn ei chael hi'n anodd dilyn proses y ddyletswydd gonestrwydd cystal â'r disgwyl. Gall hefyd effeithio ar gadw staff a/neu eu llesiant meddyliol. Fodd bynnag, awgrymwyd hefyd bod y cynnydd yn y llwyth gwaith a achosir gan weithredu'r ddyletswydd gonestrwydd yn adlewyrchu i raddau helaeth yr hyn y dylai sefydliadau fod wedi bod yn ei wneud beth bynnag i ymchwilio i bethau sydd wedi mynd o chwith a'u deall.
- 3.26 Dywedwyd mai rhwystr arall oedd ofn neu bryder ymhlith rhai o staff gwasanaethau iechyd ynghylch yr hyn y gallai'r ddyletswydd gonestrwydd ei olygu'n ymarferol, a allai godi o bryderon ynghylch llwyth gwaith ychwanegol a/neu gael sgysiau anodd â defnyddwyr gwasanaethau. Teimlai rhanddeiliaid hefyd y gallai staff boeni am y goblygiadau gyrfu o fod yn rhan o ddigwyddiadau sy'n sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd.
- 3.27 Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y gallai materion ehangach, megis pandemig COVID-19 a chyllid annigonol gan y GIG, gymhlethu'r gwaith o weithredu'r ddyletswydd gonestrwydd. Awgrymwyd hefyd bod diffyg eglurder ynghylch y trothwyon ar gyfer niwed a'r risg o niwed yn y dyfodol, a sut maent yn wahanol, yng Nghymru a Lloegr. Efallai y bydd rhywfaint o wrthdaro posibl hefyd rhwng y ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol bresennol a'r ddyletswydd sefydliadol newydd. Gall y ddau fater amharu ar ddealltwriaeth staff perthnasol o'r ddyletswydd gonestrwydd. Yn ogystal, efallai na fydd y gwaith o ddehongli a gweithredu'r [canllawiau ar y ddyletswydd gonestrwydd](#) yn gyson ar draws cyrff iechyd.
- 3.28 Fel y nodwyd eisoes, mae'r ffaith nad yw pob gwasanaeth gofal iechyd â gofyniad contractiol i ddefnyddio Datix Cymru yn broblematig. Bydd hyn yn rhwystro

dealltwriaeth gywir o'r math o ddigwyddiadau sy'n sbarduno'r ddyletswydd ledled Cymru, a'u difrifoldeb, eu lleoliad a'u cyd-destun.

- 3.29 Tynnodd rhanddeiliaid sylw at risg y byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn dod yn broses "blwch ticio", lle nad yw staff yn mynd ar drywydd defnyddwyr gwasanaethau yn ddigonol nac yn dysgu'n ddigonol o ddigwyddiadau sy'n sbarduno'r ddyletswydd. Roeddent yn teimlo bod hyfforddi staff a rhannu dysgu ar draws y system yn allweddol i atal hyn.
- 3.30 Er mwyn hwyluso'r gwaith o weithredu'r ddyletswydd gonestrwydd, dywedwyd bod angen arweinwyr cryf gyda'r math a lefel gywir o arbenigedd ar bob lefel o'r GIG. Nododd rhanddeiliaid y gallai "hyrwyddwyr" ddyletswydd gonestrwydd, neu arweinwyr clinigol sy'n hwyluso'r gwaith o weithredu'r ddyletswydd, ddod i'r amlwg yn naturiol.

Mesurau canlyniadau a ffynonellau data posibl

- 3.31 Mae'r tabl canlynol yn nodi mesurau canlyniadau a ffynonellau data posibl ar gyfer gwerthuso'r ddyletswydd gonestrwydd:

Tabl 2: Mesurau canlyniadau a ffynonellau data posibl ar gyfer gwerthuso'r ddyletswydd gonestrwydd

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn dynodi ffynonellau yn y dyfodol / ffynonellau posibl)
Tymor byr: Mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi niwed fwy o ymddiriedaeth yn y staff gofal iechyd perthnasol, a gwell cyfathrebu a pherthynas â nhw	I ba raddau y mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi niwed fwy o ymddiriedaeth mewn staff gofal iechyd, a gwell cyfathrebu a pherthynas â nhw	*Ymchwil ansoddol gyda defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi niwed a chyda'r rhai sy'n dod i gysylltiad â'r rhai sydd wedi profi niwed, e.e. Penaethiaid Profiad Cleifion y GIG, staff y GIG, Corff Llais y Dinesydd
Tymor byr: Mae defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi niwed yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, bod rhywun yn	I ba raddau y mae defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi niwed yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, bod rhywun yn	*Ymchwil ansoddol gyda defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi niwed, a chyda'r rhai sy'n dod i gysylltiad â'r rhai sydd wedi

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn dynodi ffynonellau yn y dyfodol / ffynonellau posibl)
gwrando arnynt, a'u bod yn cael eu hysbysu, eu grymuso a'u cefnogi pan aiff pethau o chwith	gwrando arnynt, a'u bod yn cael eu hysbysu, eu grymuso a'u cefnogi pan aiff pethau o chwith	profi niwed, e.e. Penaethiaid Profiad Cleifion y GIG, staff y GIG, Corff Llais y Dinesydd
Tymor byr: Cofnod cynhwysfawr o achosion lle sbardunwyd y ddyletswydd gonestrwydd	Nifer y digwyddiadau sy'n sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd Pa mor gynhwysfawr yw'r cofnod o achosion lle sbardunwyd y ddyletswydd gonestrwydd	Datix Cymru Adroddiadau blynyddol ar y ddyletswydd gonestrwydd *Ymchwil ansoddol gyda staff sy'n ymwneud ag achosion dyletswydd gonestrwydd a/neu'r rhai sy'n gweithio gyda data dyletswydd gonestrwydd
Tymor byr: Gwell dealltwriaeth ar lefel gwasanaeth a bwrdd iechyd o'r digwyddiadau sy'n arwain at niwed y gellir ei osgoi – mewn achosion unigol ac unrhyw batrymau ar draws achosion	I ba raddau y mae pobl allweddol o fewn sefydliadau yn deall y digwyddiadau sy'n arwain at niwed y gellir ei osgoi, ac yn mynegi'r gwelliannau y mae angen eu gwneud o ganlyniad	Adroddiadau blynyddol ar y ddyletswydd gonestrwydd *Ymchwil ansoddol gyda phobl allweddol o fewn sefydliadau (e.e. pwyllgorau sefydliadol, uwch-arweinwyr, rheolwyr)
Tymor byr: Mae staff perthnasol ar lefel gwasanaeth a bwrdd iechyd yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud gwelliannau i fynd i'r afael â digwyddiadau sy'n arwain at niwed	I ba raddau y mae staff perthnasol ar lefel gwasanaeth a bwrdd iechyd yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud gwelliannau i fynd i'r afael â digwyddiadau sy'n arwain at niwed	*Ymchwil ansoddol gyda staff perthnasol (e.e. pwyllgorau sefydliadol, uwch-arweinwyr, rheolwyr) Adroddiadau blynyddol ar y ddyletswydd gonestrwydd
Tymor byr: Mae'r holl staff gofal sylfaenol ac eilaidd yn fwy hyderus a chyson wrth adrodd am ddigwyddiadau	Y mathau o staff sy'n adrodd am ddigwyddiadau sy'n sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd (wedi'u trefnu yn ôl rôl)	Datix Cymru *Ymchwil ansoddol gyda staff Adroddiadau blynyddol ar y ddyletswydd gonestrwydd

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn dynodi ffynonellau yn y dyfodol / ffynonellau posibl)
	<p>Canfyddiadau staff o'u hyder wrth adrodd am ddigwyddiadau sy'n sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd</p> <p>Canfyddiadau staff perthnasol o gysondeb wrth adrodd am ddigwyddiadau sy'n sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd</p>	
<p>Tymor canolig: Mae gan y cyhoedd fwy o ymddiriedaeth a hyder mewn sefydliadau gofal iechyd</p>	<p>Ehangder ymddiriedaeth a hyder ymhlith y cyhoedd mewn sefydliadau gofal iechyd</p>	<p>Arolwg Cenedlaethol (cwestiwn presennol): barn ar gyflwr gwasanaethau iechyd yng Nghymru; (cwestiwn newydd): ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn sefydliadau gofal iechyd</p> <p><i>*Ymchwil ansoddol gydag aelodau o'r cyhoedd</i></p>
<p>Tymor canolig: Gwell rhyngweithio a chydgyhyrchu rhwng clinigwyr a defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi niwed</p>	<p>Maint y defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi boddhad ar ôl niwed trwy rhyngweithio a chydgyhyrchu â chlinigwyr</p> <p>I ba raddau y mae clinigwyr yn fodlon ar y rhyngweithio a'r cydgynhyrchu â defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi niwed</p>	<p><i>*Ymchwil ansoddol gyda defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi niwed, a chlinigwyr sydd wedi dod i gysylltiad â'r rhai sydd wedi profi niwed</i></p>
<p>Tymor canolig: Gwell dealltwriaeth ledled y GIG yng Nghymru o faterion sy'n arwain at niwed y gellir ei osgoi</p>	<p>I ba raddau y mae dysgu am faterion sy'n arwain at niwed y gellir ei osgoi yn cael ei rannu ar draws cyrff y GIG</p>	<p><i>*Ymchwil ansoddol gyda staff perthnasol</i></p>

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn dynodi ffynonellau yn y dyfodol / ffynonellau posibl)
	I ba raddau y mae staff perthnasol (e.e. pwyllgorau sefydliadol, uwch-arweinwyr) yn teimlo'n wybodus, a bod ganddynt fynediad at wybodaeth, am faterion sy'n arwain at niwed y gellir ei osgoi yn eu sefydliad eu hunain a ledled Cymru	
Tymor canolig: Mae staff perthnasol ledled y GIG yng Nghymru yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud gwelliannau i fynd i'r afael â digwyddiadau sy'n arwain at niwed	I ba raddau y mae staff perthnasol ledled y GIG yng Nghymru yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud gwelliannau i fynd i'r afael â digwyddiadau sy'n arwain at niwed	*Ymchwil ansoddol gyda staff perthnasol (e.e. pwyllgorau sefydliadol, uwch-arweinwyr, rheolwyr) Adroddiadau blynyddol ar y ddyletswydd gonestrwydd
Tymor canolig: Gostyngiad yn nifer yr achosion lle mae niwed cymedrol neu ddifrifol y gellir ei osgoi ar lefel gwasanaeth a/neu fwrdd iechyd	Nifer yr achosion lle ceir niwed cymedrol neu ddifrifol y gellir ei osgoi, wedi'u cymharu dros amser	Datix Cymru
Tymor hir: Gwell rhyngweithio a chydgyhyrchu rhwng clinigwyr a defnyddwyr gwasanaethau yn fwy cyffredinol	I ba raddau y mae defnyddwyr gwasanaethau yn fodlon ar y rhyngweithio a chydgyhyrchu â chlinigwyr I ba raddau y mae clinigwyr yn fodlon ar y rhyngweithio a'r cydgyhyrchu â defnyddwyr gwasanaethau yn gyffredinol	Arolwg Cenedlaethol (cwestiynau presennol): [ynghylch gwasanaethau meddyg teulu ac ysbyty] "Cefais fy nhrin ag urddas a pharch" Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion *Ymchwil ansoddol gyda chlinigwyr a'r cyhoedd

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn dynodi ffynonellau yn y dyfodol / ffynonellau posibl)
		Data CIVICA ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau
Tymor hir: Gwell ansawdd, diogelwch a phrofiad i ddefnyddwyr gwasanaethau a staff	Profiad defnyddwyr gwasanaethau o wasanaethau iechyd Ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd Safbwyntiau staff y GIG ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau a'u boddhad swydd	Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion Data'r Arolwg Cenedlaethol (cwestiynau presennol): boddhad cyffredinol â gwasanaethau/gofal a dderbyniwyd Arolwg staff y GIG: cwestiynau presennol sy'n ymwneud â boddhad swydd Adroddiadau arolygu AGIC; adroddiadau ansawdd blynyddol; adroddiadau "ar waith bob amser" *Ymchwil ansoddol gyda defnyddwyr gwasanaethau a staff Data CIVICA ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau
Tymor hir: Llai o gwynion ac ymglyfreitha gan ddefnyddwyr gwasanaethau, yn gyffredinol ac yn arbennig mewn perthynas â materion a ailadroddir.	Niferoedd a mathau o gwynion gan ddefnyddwyr gwasanaethau Niferoedd a ffocws ymglyfreitha a gyflwynir gan ddefnyddwyr gwasanaethau	Cofnodion Gweithio i Wella ym mhob bwrdd iechyd; cofnodion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; cofnodion Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Tymor hir: Gostyngiad yn nifer yr achosion lle ceir niwed cymedrol neu ddifrifol y gellir ei osgoi ledled y GIG yng Nghymru	Nifer yr achosion lle mae niwed cymedrol neu ddifrifol y gellir ei osgoi wedi digwydd, wedi'u cymharu dros amser	Datix Cymru

Gwerthuso gweithrediad

3.32 Mae ffynonellau data posibl a allai helpu i werthuso gweithrediad (gweithgareddau) y ddyletswydd gonestrwydd yn gorgyffwrdd yn sylweddol â'r rhai yn y tabl canlyniadau uchod. Maent yn cynnwys y canlynol:


- cynnwys cyfathrebu a gwybodaeth gyhoeddus am y ddyletswydd gonestrwydd
- cynnwys hyfforddiant staff ar y ddyletswydd gonestrwydd
- data Unwaith i Gymru Datix Cymru
- adroddiadau blynyddol ar y ddyletswydd gonestrwydd
- [Gweithio i Wella](#), cofnodion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a chofnodion Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG
- ymchwil ansoddol gyda defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi niwed, y rhai sydd wedi dod i gysylltiad â nhw, a staff perthnasol y GIG

4. Corff Llais y Dinesydd

Y ddamcaniaeth newid

4.1 Cyflwynir y ddamcaniaeth newid ar gyfer Corff Llais y Dinesydd isod.

Ffigur 3: Y ddamcaniaeth newid ar gyfer Corff Llais y Dinesydd



Gweithgareddau

4.2 Y gweithgareddau allweddol sydd ynghlwm wrth sefydlu a chynnal Corff Llais y Dinesydd yw:

- **Creu Corff Llais y Dinesydd fel corff annibynnol newydd, y cyntaf o'i fath ar gyfer gofal cymdeithasol, a disodli saith Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer gofal iechyd.** Esboniodd rhanddeiliaid fod y system Cyngor Iechyd Cymuned bellach braidd yn “hen ffasiwn”, a'r bwriad yw ei disodli gyda chorff corfforaethol cryfach, mwy cydlynol a modern sy'n grymuso'r cyhoedd ac yn hyrwyddo llais y claf a defnyddwyr gwasanaethau. Trwy greu un corff yn lle saith corff ar wahân, y gobaith yw y bydd Llywodraeth Cymru, fel cyllidwr, yn gallu goruchwyllo a deall perfformiad yn well. Y gobaith hefyd yw y bydd mwy o gysondeb yn y trefniadau ar gyfer gwrandio ar ddinasyddion ledled Cymru a'u cynrychioli.
- Cytunodd rhanddeiliaid ar yr angen hanfodol i sicrhau bod Corff Llais y Dinesydd yn gwbl weithredol ac yn gallu ysgogi ei agenda o'r dyddiad y'i sefydlwyd.¹⁰ Ystyriwyd bod sicrhau adnoddau digonol ar gyfer codi ymwybyddiaeth, costau sefydlu a chynnal parhaus, y gallu i lenwi swyddi gwag arweiniol allweddol a lleoedd i wirfoddolwyr (roedd rhai ohonynt yn wag o hyd ar adeg y drafodaeth), a darparu offer TG addas i'r diben a systemau rheoli cofnodion achos i gyd yn allweddol i hyn.
- **Ymgyrch yn y cyfryngau a chyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl Corff Llais y Dinesydd.** Byddai'r gweithgareddau hyn yn targedu'r cyhoedd, sydd yn ddiodyn yn cynnwys y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Ystyriwyd bod ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus yn hanfodol o ystyried diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol pobl o Gyngorau Iechyd Cymuned ar hyn o bryd a'r ffaith bod y Ddeddf yn rhoi llawer o bwyslais ar feithrin gwybodaeth gyhoeddus am Gorff Llais y Dinesydd. Yn wir, disgwylir i Gorff Llais y Dinesydd lunio datganiad o bolisi, yn nodi sut y mae'n bwriadu gwneud hyn. Ystyriwyd bod yr angen i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o

¹⁰ Mae Corff Llais y Dinesydd bellach yn gweithredu.

Gorff Llais y Dinesydd yn bwysig oherwydd y bydd gan Gorff Llais y Dinesydd gyfrifoldeb deddfwriaethol i gasglu a chynrychioli barn pobl ledled Cymru ac i sicrhau ei fod yn ymgysylltu'n fwy helaeth â'r cyhoedd, yn enwedig y rheini o grwpiau amrywiol, nag oedd yn digwydd o'r blaen gyda'r Cynghorau Iechyd Cymuned.

- **Ceisio barn defnyddwyr gwasanaethau ar y gofal a ddarperir, ar sail grŵp neu unigol (ond nid arolygiad).** Y newid allweddol o ran ceisio barn defnyddwyr gwasanaethau yw y bydd Corff Llais y Dinesydd yn gwneud hyn ar gyfer gofal cymdeithasol yn ogystal â gofal iechyd. Dadleuwyd oni bai fod gwirfoddolwyr (gan gynnwys gwirfoddolwyr presennol y Cynghorau Iechyd Cymuned a fydd yn trosglwyddo i'r corff newydd) wedi'u hyfforddi'n briodol yn y "*maes busnes newydd*" hwn, y bydd y gallu i gynrychioli barn unigolion a chymunedau yn briodol yn cael ei wanhau. Mae'r broses yn dechrau, gydag arweinwyr gofal cymdeithasol yn rhoi darlithoedd bach ar eu gwahanol feysydd i wirfoddolwyr a chynlluniau ar waith i adolygu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig nodi cymhlethdod mwy ceisio barn ar ofal cymdeithasol mewn perthynas â gofal iechyd, o ystyried y nifer uwch o leoliadau gofal cymdeithasol a'u hamrywiaeth.
- Mae'r ffaith na fydd Corff Llais y Dinesydd yn rhan o arolygu neu 'graffu' hefyd yn newid, ac yn un a fydd yn gofyn am ailfframio disgrifiadau rôl yn ofalus ac ailhyfforddi gwirfoddolwyr presennol.
- **Datblygu dulliau o geisio barn sy'n galluogi pob defnyddiwr gwasanaeth i ymgysylltu, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg a rhai o grwpiau sy'n cael eu clywed llai.** Disgwylir i Gorff Llais y Dinesydd ymgysylltu â grwpiau amrywiol ledled Cymru, gyda chymorth sefydliadau trydydd sector a grwpiau cymunedol perthnasol. Mae'r pwyslais ar yr agwedd hon yn ei wahaniaethu oddi wrth y Cynghorau Iechyd Cymuned. Disgwylir i'r gwaith o adnabod y grwpiau hyn a datblygu dulliau addas o geisio eu barn, gan gynnwys dulliau digidol a thechnoleg, wyneb yn wyneb ac o bell, fod yn rhan o waith cychwynnol Corff Llais y Dinesydd. Bydd hyn yn gofyn am

fuddsoddiad digonol mewn sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd ar gyfer ymgysylltu o'r fath, boed hynny'n fewnol neu drwy weithio gydag arbenigwyr allanol.

- Un ystyriaeth benodol o ran ceisio barn pob defnyddiwr gwasanaeth yw sut i ymgysylltu â'r rhai sy'n derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain (mewn llety a rennir, gofal preswyl, neu drwy ofal cartref, er enghraifft). Mae angen meddwl yn ofalus i sicrhau nad yw gallu Corff Llais y Dinesydd i gyflawni ei rôl o ran datblygu darlun o ofal a chymorth wedi'i gyfyngu i'r hyn a gynigir mewn lleoliadau hygyrch.
- Credwyd bod sicrhau bod Corff Llais y Dinesydd, fel corff llais y bobl ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol i Gymru gyfan, yn cael ei sefydlu ar sail gwbl ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf yn hanfodol, ac o bosibl wedi'i gyfyngu gan yr adnoddau a ddyrennir iddo ar hyn o bryd.
- **Ymgysylltu â grwpiau, sefydliadau a chyrff eraill sy'n cynrychioli lleisiau dinasyddion (e.e. Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, y trydydd sector, AGIC, AGC).** Fel y nodwyd ym [memorandwm esboniadol](#) y Ddeddf, mae angen i Gorff Llais y Dinesydd ymgysylltu'n agos â'r arolygiaethau a chyrff a sefydliadau cyhoeddus eraill i sicrhau bod lleisiau dinasyddion yn cael eu clywed, ond hefyd i atal dyblygu ymdrech lle gallent fod yn gweithio ar themâu tebyg, ac i hwyluso cydweithredu a dysgu sefydliadol ar y cyd (er enghraifft, ynghylch arferion gorau ar ymgysylltu). Yn hanfodol i hyn mae datblygu cyfres o Femoranda Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer ymgysylltu â'r endidau hyn. Disgwylir y caiff profiadau defnyddwyr ag arolygiaethau (AGIC ac AGC) eu rhannu gan y naill ochr a'r llall.
- **Cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.** Dyma weithgaredd craidd Corff Llais y Dinesydd, a hwylusydd allweddol i hyn fydd y gallu i weithio o fewn ôl troed lleol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae [memorandwm esboniadol](#) y Ddeddf yn amlygu manteision cynrychioli safbwyntiau'n effeithiol ar lefel leol wrth ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd yn lleol ac yn

rhanbarthol i ysgogi dysgu a gwelliannau thematig a chenedlaethol i ddefnyddwyr gwasanaethau.

- Pwysleisiodd rhanddeiliaid y dylai Corff Llais y Dinesydd ganolbwyntio ar themâu yn hytrach na straeon unigol. Teimlwyd bod angen dulliau cyson o gasglu tueddiadau a phatrymau yn rhanbarthol er mwyn caniatáu iddynt gael eu hystyried yn briodol ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, mae hefyd angen peidio â cholli golwg ar faterion mwy lleol y mae angen eu datrys, yn enwedig gan y gallai mwy o gydweithio a thrafodaeth ar sail ranbarthol a chenedlaethol nodi materion tebyg mewn meysydd eraill. Yn wir, mae [memorandwm esboniadol](#) y Ddeddf yn tynnu sylw at y ffaith y dylai Corff Llais y Dinesydd gael y gallu i ymateb i anghenion lleol a rhanbarthol, yn ogystal â chael dylanwad gwirioneddol ar bolisi cenedlaethol.
- Codwyd yr angen hefyd i sicrhau bod Corff Llais y Dinesydd yn gallu cynrychioli buddiannau'r cyhoedd wrth hefyd fod yn ymwybodol o faterion diogelwch cleifion a gwasanaethau. Hynny yw, mae newidiadau gwasanaeth amhoblogaidd yn aml yn cael eu gwneud ar sail diogelwch, a lle mae hyn yn wir, fe'i hystyriwyd yn rhan o ddyletswydd Corff Llais y Dinesydd i egluro yn hytrach na mabwysiadu safiad gwrthwynebus.
- **Darparu gwasanaethau eirioli i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau gyda'r broses gwyno.** Byddai hyn yn golygu cefnogi defnyddwyr gwasanaethau i ddeall y broses gwyno; eu helpu i gyflwyno cwyn yn ysgrifenedig; eu cynrychioli mewn cyfarfodydd; sicrhau bod y drefn gwyno yn cael ei dilyn; ac uwchgyfeirio'r gŵyn os oes angen. Nododd un rhanddeiliad sgil-gynnyrch posibl y broses eirioli: yr effaith ar unigolion wrth godi eu sgiliau a'u hyder i ymdrin â materion sy'n codi. Mae'r daith o'r dechrau i'r diwedd yn aml yn eithaf arwyddocaol yn hyn o beth, medden nhw.
- **Hyfforddiant a lledaenu gwybodaeth i staff iechyd a gofal cymdeithasol ar Gorff Llais y Dinesydd, sut orau i weithio gydag ef, a chanlyniadau ei weithgareddau.** Teimlwyd bod hyn yn arbennig o bwysig i staff gofal cymdeithasol o ystyried nad oeddent o fewn cylch gorchwyl y Cynghorau Iechyd Cymuned.

- **Casglu data cynhwysfawr a chyson ac adrodd ar weithgareddau a pherfformiad Corff Llais y Dinesydd.** Tynnodd sawl rhanddeiliad sylw at dreial y Cynghorau Iechyd Cymuned o feddalwedd Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd ar gyfer casglu a choladu adborth fel ei fod yn fwy thematig nag oedd yn bosibl o'r blaen. Y gobaith oedd y bydd hyn yn galluogi dull llawer mwy systematig a manwl o gasglu data yn y dyfodol (trafodir hyn ymhellach yn yr adrannau 'canlyniadau' a 'rhwystrau' isod).
- **Mae Corff Llais y Dinesydd a Llywodraeth Cymru yn myfyrio ar strwythurau, strategaethau a pholisïau sefydliadol ac yn eu hadolygu yn barhaus.** Ategir y gweithgaredd hwn gan y cynlluniau blynyddol (gan gynnwys amcanion a blaenoriaethau) ac adroddiadau (gan gynnwys datganiad iechyd), a fydd yn cael eu cynhyrchu gan Gorff Llais y Dinesydd.

4.3 Mae'r gweithgareddau'n cysylltu â chanlyniadau tymor byr, canolig a hir Corff Llais y Dinesydd, a archwilir yn eu tro isod.

Canlyniadau tymor byr

4.4 Y canlyniad tymor byr cyntaf yw **ffyrdd cyson o weithio a threfniadau ar gyfer cynrychioli lleisiau defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru.** Mae sefydlu un corff cenedlaethol a all weithio mewn ffordd fwy cyson ac unffurf gyda'i randdeiliaid a'i bartneriaid yn allweddol i hyn, fel y mae'r [canllawiau ategol](#) sy'n egluro sut y bydd y GIG yn gweithio gyda Chorff Llais y Dinesydd ar ymgynghori a gwella gwasanaethau. Ym maes gofal cymdeithasol yn benodol, nid oes trefniadau ffurfiol a systematig ar gyfer ceisio a chynrychioli lleisiau defnyddwyr gwasanaethau. Argymhellodd [Adolygiad Longley](#) o Gynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru y dylid sefydlu un Cyngor Iechyd Cymuned cenedlaethol i Gymru, gyda phwyllgorau lleol i gynrychioli llais defnyddwyr gwasanaethau ar lefel leol. Mae hyn yn debyg i strwythur arfaethedig Corff Llais y Dinesydd, fel y nodir yn y Ddeddf.

4.5 Yr ail ganlyniad tymor byr yw bod y **cyhoedd yn ymwybodol o Gorff Llais y Dinesydd, ei rôl, a sut i ymgysylltu ag ef.** Fel y trafodwyd uchod, mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Cynghorau Iechyd Cymuned wedi bod yn gyfyngedig, fel y dangosir yn [Adolygiad Longley](#), ac yn adolygiad Ruth Marks o AGIC (2014). Yn unol â hynny, un o nodau polisi allweddol y Ddeddf yw bod gan Gorff Llais y

Dinesydd broffil cyhoeddus uwch na'r Cynghorau Iechyd Cymuned presennol. Bydd byrddau Iechyd yn helpu i gyflawni hyn drwy'r ddyletswydd y mae'r Ddeddf yn ei gosod arnynt i hyrwyddo rôl a swyddogaeth Corff Llais y Dinesydd.

- 4.6 Y trydydd canlyniad tymor byr yw bod **amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys pobl sy'n cael eu clywed llai / grwpiau amrywiol, yn rhoi eu barn ar Iechyd a gofal cymdeithasol**. Roedd ymdeimlad ymhlith rhanddeiliaid nad oes gan y Cynghorau Iechyd Cymuned ar hyn o bryd yr adnoddau i nodi ac ymgysylltu'n ddigonol â phobl sy'n cael eu clywed llai a grwpiau amrywiol, sy'n golygu bod rhwystrau i'w lleisiau gael eu clywed. Felly, ystyriwyd bod sicrhau bod gan Corff Llais y Dinesydd ddigon o adnoddau i gyflawni'r elfen hon o'i gylch gwaith yn allweddol i gyflawni'r canlyniad hwn. Hefyd yn allweddol yw'r angen i wneud Corff Llais y Dinesydd yn weladwy ac yn hygyrch i bobl ledled Cymru gyfan fel eu bod yn gallu rhannu eu profiadau'n hawdd mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion.
- 4.7 Y pedwerydd canlyniad tymor byr yw bod **darparwyr Iechyd a gofal cymdeithasol yn gwrando ar sylwadau Corff Llais y Dinesydd ac yn gweithredu arnynt i wella polisi ac arferion**. Gwelwyd hyn fel mesur allweddol o ddylanwad a llwyddiant Corff Llais y Dinesydd.
- 4.8 Y pumed canlyniad tymor byr yw bod **defnyddwyr gwasanaeth eirioli Corff Llais y Dinesydd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda**.
- 4.9 Y chweched canlyniad tymor byr yw bod **darparwyr Iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwybodol o Gorff Llais y Dinesydd, yn deall ei rôl, ac yn gwybod sut i weithio gydag ef**. Mae nifer o ddyletswyddau ar wasanaethau Iechyd ac awdurdodau lleol i hyrwyddo gweithgareddau Corff Llais y Dinesydd, i gydweithredu, ac i ymateb. Er mwyn iddynt allu cyflawni'r dyletswyddau hynny'n effeithiol o'r diwrnod cyntaf, dywedwyd bod angen iddynt ddatblygu dealltwriaeth dda o Gorff Llais y Dinesydd a sut mae'n berthnasol iddynt. Mae'r [canllawiau statudol](#) i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol ar sylwadau a wneir iddynt gan Gorff Llais y Dinesydd yn hanfodol yn hyn o beth.
- 4.10 Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o berthnasol i ddarparwyr gofal cymdeithasol, nad oes ganddynt y ddealltwriaeth sylfaenol sydd gan ddarparwyr gofal Iechyd drwy eu

rhyngweithio â Chynghorau Iechyd Cymuned. Yn wir, teimlwyd bod darparwyr gofal iechyd eisoes yn gyfforddus â'r syniad o gorff arall yn ymgysylltu â defnyddwyr eu gwasanaethau gyda golwg ar wella'r gwasanaethau hynny. Wrth symud i'r lleoliad gofal cymdeithasol, bydd hynny'n fwy heriol, gan olygu bod angen meithrin perthnasoedd ac ymgysylltu â chomisiynwyr, darparwyr, a phwyllgorau craffu.

- 4.11 Un mater penodol mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o rôl Corff Llais y Dinesydd yw mynediad i eiddo: bydd y cod ymarfer arfaethedig yn hanfodol i hyn er mwyn caniatáu i Gorff Llais y Dinesydd gael mynediad i fannau lle darperir gwasanaethau. Unwaith eto, dywedwyd bod hyn yn arbennig o bwysig mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, lle nad oes hanes o gorff yn mynd i mewn i eiddo i glywed gan bobl wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau.
- 4.12 Y seithfed canlyniad tymor byr yw bod **darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cefnogi Corff Llais y Dinesydd**. Disgwyliwyd i'r canlyniad hwn gael ei danategu gan gyfuniad o hyfforddiant a lledaenu gwybodaeth, yn enwedig hyrwyddo canlyniadau gweithgareddau Corff Llais y Dinesydd. Yn bwysig hefyd, adroddwyd bod y berthynas rhwng darparwyr gofal iechyd a'r Cyngor Iechyd Cymuned braidd yn wrthwynebus, ac y byddai datblygu dull partneriaeth mwy cydweithredol o fudd i feithrin cymorth i Gorff Llais y Dinesydd.
- 4.13 Y canlyniad tymor byr terfynol yw **dealltwriaeth fanwl gan Lywodraeth Cymru o berfformiad Corff Llais y Dinesydd**. Mae hyn yn bwysig ar gyfer monitro, i ennyn hyder yng Nghorff Llais y Dinesydd, ac i sicrhau bod Corff Llais y Dinesydd yn rhoi gwerth am arian.

Canlyniadau tymor canolig

- 4.14 Y canlyniad tymor canolig cyntaf yw **newid diwylliannol a threfniadol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan roi mwy o werth ar wrando ar lais defnyddwyr gwasanaethau a'i ymgorffori**. Roedd rhanddeiliaid yn rhagweld mai un o'r newidiadau sefydliadol allweddol fyddai y byddai angen i fyrddau iechyd ddangos yn systematig pa gamau yr oeddent wedi'u cymryd mewn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau.

4.15 Yr ail ganlyniad tymor canolig yw bod **gwasanaethau a pholisïau iechyd a gofal cymdeithasol yn adlewyrchu barn defnyddwyr gwasanaethau yn well** a'r trydydd yw bod **y cyhoedd o'r farn bod ganddynt lais wrth lunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**. Mae'r ddau o'r rhain yn ganlyniadau hollbwysig o ystyried mai prif ddiben Corff Llais y Dinesydd yw cynrychioli lleisiau a barn pobl Cymru yn annibynnol mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a sicrhau bod barn a phrofiadau dinasyddion yn llywio'r gwaith o gynllunio a datblygu gwasanaethau. Mae'r canlyniadau hyn yn rhyng-gysylltiedig ond cânt eu cynnwys ar wahân i ddangos ei bod yn bwysig i'r cyhoedd gael llais wrth lunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ond hefyd i ganfod mai dyna'r sefyllfa.

Canlyniadau tymor hir

4.16 Y canlyniad hirdymor cyntaf yw **mwy o waith integredig rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru**. Adlewyrchir yr angen am waith integredig agosach rhwng y sectorau yn argymhellion yr [Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru \(2018\)](#) a [Cymru Iachach \(cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol\) \(2018\)](#). Roedd teimlad y gallai Corff Llais y Dinesydd gael effaith gadarnhaol wrth fynd i'r afael â'r meddylfryd seilo sy'n bodoli ar hyn o bryd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd rhanddeiliaid yn rhagweld y byddai Corff Llais y Dinesydd yn hwyluso cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion iechyd a llesiant cleifion yn well. Yn benodol, nodwyd y gallai Corff Llais y Dinesydd helpu i nodi rhai o'r materion hynny sy'n effeithio ar y ffiniau rhwng y ddau sector a'r ffordd y mae darparwyr yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau. Dywedodd rhanddeiliaid, er nad Corff Llais y Dinesydd yw'r ateb cyfan i weithio integredig, yn sicr y gall chwarae rhan.

4.17 Yr ail ganlyniad hirdymor yw **gwell ansawdd a phrofiad i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**. Swyddogaeth allweddol Corff Llais y Dinesydd yw gwrandao ar gleifion a sicrhau bod eu barn yn cael ei defnyddio i helpu i wneud penderfyniadau sy'n galluogi gwelliannau o ran ansawdd a phrofiad y claf.

Yn y bôn, y nod yw sicrhau bod pawb yn gallu cael yr iechyd a'r gofal sydd eu hangen arnynt, pan fydd eu hangen arnynt, ac yn y ffordd y mae eu hangen arnynt.

4.18 **Y trydydd canlyniad hirdymor yw bod pobl yn cael bywydau gwell, hirach ac iachach.** Gall y ddeddfwriaeth wneud cyfraniad drwy sylwadau sy'n arwain at wella gwasanaethau.

4.19 Y pedwerydd canlyniad tymor hir yw bod **llais y cyhoedd, cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn cael mwy o amlygrwydd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.**

Canlyniadau anfwriadol

4.20 Er nad yw'r rhain wedi'u cynnwys yn Ffigur 3, nododd rhanddeiliaid nifer o ganlyniadau anfwriadol posibl a allai ddeillio o greu Corff Llais y Dinesydd:

- Cynnydd posibl yn nifer y cwynion iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o Gorff Llais y Dinesydd. Nid yw'r [memorandwm esboniadol](#) yn ystyried hyn yn risg sylweddol o ystyried bod prosesau cwyno presennol o fewn iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u cyhoeddi'n dda ac wedi'u sefydlu, ond mae'n rhywbeth i'w gofio.
- Os nad oes gan Gorff Llais y Dinesydd ddigon o gapasiti i ateb y galw am ei wasanaethau (pwynt a archwilir ymhellach yn yr adran 'rhwystrau' isod), efallai y bydd ganddo lai o ymrwymiad, ymddiriedaeth a hygyrdd na'r Cynghorau Iechyd Cymuned, gan achosi niwed i enw da a allai gymryd blynyddoedd lawer i'w atgyweirio.
- Gwanhau lleisiau dinasyddion oherwydd bod y corff newydd wedi'i ymestyn yn rhy denau ar draws dau sector.
- Colledion staff a gwirfoddolwyr o ganlyniad i'r broses newid.
- Er y disgwylir i Gorff Llais y Dinesydd ymgysylltu â sefydliadau eraill yn ystod ei waith, wrth ymdrechu i fod mor annibynnol â phosibl efallai na fydd yn ceisio ac felly'n elwa ar y cymorth a'r gefnogaeth ymarferol a gynigir gan sefydliadau eraill (Llywodraeth Cymru, er enghraifft).

4.21 Fodd bynnag, codwyd rhai canlyniadau posibl mwy cadarnhaol neu ddyheadol hefyd:

- Mae'n debygol y bydd staff Corff Llais y Dinesydd, a gweithlu'r Cynghorau Iechyd Cymuned sy'n symud i Gorff Llais y Dinesydd, yn datblygu sgiliau uwch o ran cofnodi ac adrodd ar gwynion, yn enwedig mewn perthynas â gofal cymdeithasol, o ystyried y bydd hwn yn gylch gorchwyl newydd iddynt.
- Gallai'r grŵp gwirfoddol ddod yn fwy amrywiol. Ar hyn o bryd, rhaid i bob gwirfoddolwr gael ei recriwtio drwy'r broses penodiadau cyhoeddus, a all fod yn annymunol i lawer. Gall proses haws, gydag amrywiaeth ehangach o rolau sy'n darparu ar gyfer ystod o sgiliau, ddenu mwy o wirfoddolwyr.
- Mae'n bosibl y bydd sgiliau a hyder defnyddwyr gwasanaethau wrth godi cwynion ac ymdrin â materion yn ymwneud â'u gofal yn cynyddu, trwy Gorff Llais y Dinesydd yn eu cefnogi ac eirioli drostynt.
- Gan dybio y bydd gwasanaeth eirioli gwell, gallai fod effaith gadarnhaol ar lesiant meddwl defnyddwyr o ystyried y straen o wneud cwyn.
- Gallai system rheoli achosion newydd arwain at ddull mwy rhagweithiol o nodi materion yn gynnar a chymryd camau, trwy adroddiadau monitro a sbardunau.
- Gallai perthnasoedd cryfach ddatblygu gyda sefydliadau cyfatebol ar draws y DU i chwyddo lleisiau dinasyddion yn ehangach a galw am newid ym mholisi'r DU pan fo'n briodol.
- Gellid ystyried Corff Llais y Dinesydd fel model i wledydd eraill ei ddilyn o fewn eu systemau iechyd a gofal eu hunain.

Rhwystrau a hwyluswyr

4.22 Rhestrodd rhanddeiliaid nifer o faterion a rhwystrau gweithredu, er ei bod yn bosibl y bydd rhai o'r rhain wedi'u datrys erbyn i Gorff Llais y Dinesydd gael ei sefydlu. Bydd yn bwysig archwilio'r materion hyn a'u heffaith mewn unrhyw werthusiad yn y dyfodol.

- 4.23 Codwyd mater cyllid ac adnoddau yn aml. Er gwaethaf [memorandwm esboniadol](#) y Ddeddf yn datgan bod angen i Gorff Llais y Dinesydd gael ei ariannu'n ddigonol, roedd rhanddeiliaid o'r farn bod yr arian a ddarparwyd ar gyfer codi ymwybyddiaeth a sefydlu Corff Llais y Dinesydd yn annigonol. Ar ben hynny, dywedodd rhanddeiliaid fod y rhaglen weithredu yn brin iawn o adnoddau o safbwynt personél, gyda chyfradd uchel o swyddi gwag ar draws ffrydiau gwaith a rolau arweiniol. Roedd hyn yn golygu na fyddai gan Gorff Llais y Dinesydd yr holl systemau a phrosesau ar waith i gyflawni ei swyddogaethau o'r diwrnod cyntaf.
- 4.24 Fel y trafodwyd uchod, tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith y gall Datix Cymru ddarparu rhywfaint o ddata sy'n ymwneud â gweithrediad ac effeithiolrwydd Corff Llais y Dinesydd, ond rhybuddiodd ei fod yn brin o fanylion ac na ellir ei gwestiynu'n fanwl. Bydd cyflwyno'r feddalwedd Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd yn darparu data manylach y gellir ei ddadansoddi i ddangos themâu a thueddiadau pan fyddant ar waith.
- 4.25 Nododd rhanddeiliaid yn y gweithdy nad oedd paramedrau rôl Corff Llais y Dinesydd mewn perthynas â gofal cymdeithasol wedi'u pennu eto, a allai achosi diffyg eglurder ymhlith aelodau Corff Llais y Dinesydd a defnyddwyr gwasanaethau. Ymhellach, amlygwyd cymhlethdodau cynhenid gweithio o fewn yr amgylchedd gofal cymdeithasol gyda'i lu o ddarparwyr fel rhywbeth a allai achosi problemau i wirfoddolwyr eu hamgyffred. Roedd hefyd yn cael ei weld fel maes gwaith sy'n "brin o adnoddau". Yn hyn o beth, roedd rhywfaint o deimlad y byddai gorfod gweithio ar draws y ddau faes o reidrwydd yn golygu bod yn rhaid i Gorff Llais y Dinesydd ystyried yn ofalus nifer y sylwadau y mae'n eu gwneud a'u math.
- 4.26 Ansicrwydd arall a godwyd yn y gweithdy oedd sut y bydd Corff Llais y Dinesydd yn gwneud sylwadau ac argymhellion cenedlaethol, yn anad dim gan nad oes ganddo'r un pŵer â'r Cyngorau lechyd Cymuned presennol i gyfeirio penderfyniadau mawr ar newidiadau i wasanaethau at weinidogion. Hefyd, nid oedd sut y gallai gyflwyno sylwadau i gyrff cenedlaethol eraill, megis Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg Cymru, wedi'u nodi'n benodol yn y Ddeddf nac yn unman arall. Dywedwyd ei bod yn aneglur yn y

gweithdy lle bydd Corff Llais y Dinesydd yn eistedd mewn perthynas â'r cyrff eraill sy'n ymwneud â chynrychioli lleisiau defnyddwyr gwasanaethau neu ddinasyddion.

4.27 Yn olaf, roedd rhanddeiliaid wedi canfod rhywfaint o deimlad ymhlith staff iechyd ac yn enwedig staff gwasanaethau gofal cymdeithasol bod Corff Llais y Dinesydd yn ddiangen oherwydd bod llwybrau megis prosesau cwyno, cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a llais y dinesydd eisoes yn bodoli.

Mesurau canlyniadau a ffynonellau data posibl

4.28 Mae'r tabl canlynol yn nodi mesurau canlyniadau a ffynonellau data posibl ar gyfer gwerthuso Corff Llais y Dinesydd:

Tabl 3: Mesurau canlyniadau a ffynonellau data posibl ar gyfer gwerthuso Corff Llais y Dinesydd

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn nodi angen newydd posibl o ran casglu data)
Tymor byr: Ffyrdd cyson o weithio a threfniadau ar gyfer cynrychioli lleisiau defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru	Mae Corff Llais y Dinesydd yn gweithio gyda rhanddeiliaid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol mewn ffordd gyson a systematig ledled Cymru Mae Corff Llais y Dinesydd yn ymgysylltu â'r cyhoedd i gael eu barn ar iechyd a gofal cymdeithasol mewn ffordd gyson ledled Cymru	Adroddiadau a gyflwynir gan Gorff Llais y Dinesydd i Bwyllgorau Ansawdd a Diogelwch cyrff y GIG neu i bwyllgorau awdurdodau lleol perthnasol, ac adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru Data a gasglwyd drwy'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd *Ymchwil ansoddol gyda staff Corff Llais y Dinesydd, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol
Tymor byr: Mae'r cyhoedd yn ymwybodol o Gorff Llais y Dinesydd a'i rôl a sut i ymgysylltu ag ef	Ymwybyddiaeth y cyhoedd o Gorff Llais y Dinesydd a'i rôl, a sut i ymgysylltu ag ef (yn enwedig o gymharu â	Data'r Arolwg Cenedlaethol (cwestiwn newydd): Archwilio ymwybyddiaeth y cyhoedd o Gorff Llais y Dinesydd

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn nodi angen newydd posibl o ran casglu data)
	Chynghorau Iechyd Cymuned)	<p>*Ymchwil ansoddol gydag aelodau o'r cyhoedd</p> <p>*Dadansoddiad o gyrhaeddiad cyfryngau cymdeithasol Corff Llais y Dinesydd, argraffiadau clicio drwodd, ac ymweliadau â gwefannau</p>
<p>Tymor byr: Mae amrywiaeth eang o ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys pobl sy'n cael eu clywed llai / grwpiau amrywiol, yn rhoi eu barn ar iechyd a gofal cymdeithasol</p>	<p>Nifer y bobl yr ymgysylltir â nhw gan Gorff Llais y Dinesydd</p> <p>Nifer y bobl yr ymgysylltir â nhw gan Gorff Llais y Dinesydd yn ôl ardal (o gymharu â Chynghorau Iechyd Cymuned)</p> <p>Nodweddion demograffig pobl yr ymgysylltir â nhw gan Gorff Llais y Dinesydd (e.e. grŵp oedran, rhyw, ethnigrwydd)</p> <p>Nifer y bobl yr ymgysylltir â nhw sy'n cael eu cyflogi gan Gorff Llais y Dinesydd fesul sector (h.y. iechyd neu ofal cymdeithasol)</p>	<p>Data presennol a gasglwyd gan Gynghorau Iechyd Cymuned (i nodi llinell sylfaen / at ddibenion meincnodi)</p> <p>Adroddiadau a gyflwynir gan Gorff Llais y Dinesydd i Bwyllgorau Ansawdd a Diogelwch cyrff y GIG neu i bwyllgorau awdurdodau lleol perthnasol, ac adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru</p> <p>Data a gasglwyd trwy'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd (yn ddelfrydol yn cynnwys data demograffig, e.e. grŵp oedran, rhyw, ethnigrwydd)</p>
<p>Tymor byr: Mae darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn gwrandao ar sylwadau Corff Llais y Dinesydd ac yn gweithredu arnynt i wella polisi ac arferion</p>	<p>Nifer y sylwadau a gyflwynwyd i fyrddau iechyd</p> <p>Nifer y sylwadau a gyflwynwyd i awdurdodau lleol</p> <p>Nifer y camau gweithredu a gymerwyd gan fyrddau</p>	<p>Cofnodion Cynghorau Iechyd Cymuned ar sylwadau (i nodi llinell sylfaen / at ddibenion meincnodi)</p> <p>Adroddiadau blynyddol y Cynghorau Iechyd</p>

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn nodi angen newydd posibl o ran casglu data)
	<p>iechyd, a'u math, o ganlyniad i sylwadau Corff Llais y Dinesydd</p> <p>Nifer y camau gweithredu a gymerwyd gan awdurdodau lleol, a'u math, o ganlyniad i sylwadau Corff Llais y Dinesydd</p>	<p>Cymuned (i nodi llinell sylfaen / at ddibenion meincnodi)</p> <p>Data Corff Llais y Dinesydd ar sylwadau fesul sector</p> <p>Data Corff Llais y Dinesydd neu'r byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ar ymatebion i sylwadau</p> <p>*Ymchwil ansoddol gyda staff Corff Llais y Dinesydd a chynrychiolwyr byrddau iechyd ac awdurdodau lleol</p>
<p>Tymor byr: Mae defnyddwyr gwasanaeth eirioli Corff Llais y Dinesydd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda</p>	<p>I ba raddau y mae achwynwyr sy'n ymgysylltu â Chorff Llais y Dinesydd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi</p>	<p>*Holiadur defnyddwyr gwasanaeth eirioli Corff Llais y Dinesydd</p> <p>*Ymchwil ansoddol gydag achwynwyr sydd wedi ymgysylltu â Chorff Llais y Dinesydd</p>
<p>Tymor byr: Mae darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwybodol o Gorff Llais y Dinesydd, yn deall ei rôl, ac yn gwybod sut i weithio gydag ef</p>	<p>Ymwybyddiaeth ymhlith darparwyr iechyd o Gorff Llais y Dinesydd a'i rôl a sut i ymgysylltu ag ef (yn enwedig o gymharu â Chynghorau Iechyd Cymuned)</p> <p>Ymwybyddiaeth ymhlith darparwyr gofal cymdeithasol o Gorff Llais y Dinesydd a'i rôl a sut i ymgysylltu ag ef</p>	<p>*Arolwg staff y GIG ac arolygon gweithlu gofal cymdeithasol:¹¹ Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu cwestiynau newydd ar ymwybyddiaeth o Gorff Llais y Dinesydd</p> <p>*Ymchwil ansoddol gyda darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol</p>

¹¹ Bydd arolwg cenedlaethol o'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei dreialu'n fuan.

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn nodi angen newydd posibl o ran casglu data)
<p>Tymor byr: Mae darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cefnogi Corff Llais y Dinesydd</p>	<p>Gwell perthnasoedd rhwng darparwyr iechyd a Chorff Llais y Dinesydd, o gymharu â'r berthynas rhwng darparwyr iechyd a'r Cynghorau Iechyd Cymuned</p> <p>Lefelau cymorth i Gorff Llais y Dinesydd ymhlith darparwyr iechyd</p> <p>Lefelau cymorth i Gorff Llais y Dinesydd ymhlith darparwyr gofal cymdeithasol</p>	<p>Arolwg staff y GIG ac arolygon gweithlu gofal cymdeithasol: Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu cwestiwn newydd ar gymorth i Gorff Llais y Dinesydd</p> <p>*Ymchwil ansoddol gyda staff Corff Llais y Dinesydd, a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol</p>
<p>Tymor byr: Dealltwriaeth fanwl gan Lywodraeth Cymru o berfformiad Corff Llais y Dinesydd</p>	<p>Mae gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth dda o berfformiad Corff Llais y Dinesydd</p>	<p>Adroddiadau blynyddol Corff Llais y Dinesydd</p> <p>*Ymchwil ansoddol gyda staff perthnasol Llywodraeth Cymru</p>
<p>Tymor canolig: Newid diwylliannol a threfniadol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan roi mwy o werth ar wrando ar lais defnyddwyr gwasanaethau a'i ymgorffori</p>	<p>Gwrandewir yn gynyddol ar leisiau defnyddwyr gwasanaethau a chânt eu gwerthfawrogi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol</p>	<p>Adroddiadau arolygu AGIC ac AGC</p> <p>Arolwg staff y GIG ac arolygon y gweithlu gofal cymdeithasol: Archwilio'r posibilrwydd o gynnwys cwestiynau newydd ar bwysigrwydd gwrande ar lais defnyddwyr gwasanaethau a'i ymgorffori, ac i ba raddau y mae eu sefydliad yn gwneud hyn</p> <p>*Ymchwil ansoddol gyda staff Corff Llais y Dinesydd, a chynrychiolwyr byrddau</p>

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn nodi angen newydd posibl o ran casglu data)
		iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector
Tymor canolig: Mae gwasanaethau a pholisïau iechyd a gofal cymdeithasol yn adlewyrchu barn defnyddwyr gwasanaethau yn well	Mae barn a phrofiadau dinasyddion yn cael dylanwad cynyddol ar y gwaith o gynllunio a datblygu gwasanaethau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol	Data byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ar ymatebion i sylwadau Dogfennau polisi Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol (i asesu i ba raddau y ceir tystiolaeth o hyn) *Ymchwil ansoddol gyda staff Corff Llais y Dinesydd, comisiynwyr, darparwyr gwasanaethau, y trydydd sector, a rhanddeiliaid perthnasol eraill (gan gynnwys y cyhoedd a chleifion)
Tymor canolig: Mae'r cyhoedd o'r farn bod ganddynt lais wrth lunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol	Mae aelodau'r cyhoedd yn teimlo bod ganddynt lais wrth lunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol	Arolwg Cenedlaethol (cwestiynau presennol): A allant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar wasanaethau iechyd lleol ac a hoffent fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar wasanaethau iechyd lleol *Ymchwil ansoddol gydag aelodau o'r cyhoedd
Tymor hir: Mwy o weithio integredig rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru	I ba raddau y mae gwaith integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol	Data Corff Llais y Dinesydd ar sylwadau fesul sector i nodi materion traws-sector Data byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ar

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn nodi angen newydd posibl o ran casglu data)
		<p>ymatebion ar y cyd i sylwadau</p> <p>Arolwg staff y GIG ac arolygon y gweithlu gofal cymdeithasol: Archwilio'r posibilrwydd o gynnwys cwestiwn am gydweithio</p> <p>*Ymchwil ansoddol gyda Chorff Llais y Dinesydd, cynrychiolwyr byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, a staff perthnasol Llywodraeth Cymru</p>
<p>Tymor hir: Gwell ansawdd a phrofiad i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol</p>	<p>Gwasanaethau o ansawdd gwell ym maes iechyd a gofal cymdeithasol</p> <p>Gwell profiad i gleifion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol</p>	<p>Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion a Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion</p> <p>Adroddiadau arolygu AGIC; adroddiadau ansawdd blynyddol; adroddiadau “ar waith bob amser”</p> <p>Arolwg Cenedlaethol (cwestiwn presennol): boddhad gyda'r gofal/gwasanaethau a ddefnyddiwyd</p> <p>Data CIVICA ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau</p> <p>*Ymchwil ansoddol gyda defnyddwyr gwasanaethau</p>
<p>Tymor hir: Mae pobl yn byw bywydau gwell, hirach ac iachach</p>	<p>Canlyniadau iechyd ar lefel poblogaeth</p>	<p>Mae ystod eang o ddata iechyd y boblogaeth ar gael y gallid ei ddefnyddio i fesur y canlyniad hwn. Byddai angen trafodaethau</p>

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn nodi angen newydd posibl o ran casglu data)
		ynghylch yr elfennau data sydd fwyaf priodol i'w defnyddio.
<p>Tymor hir: Mae llais y cyhoedd, cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn cael mwy o amlygrwydd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau</p>	<p>Mae barn a phrofiadau dinasyddion wedi dylanwadu mwy ar y gwaith o gynllunio a datblygu gwasanaethau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol</p>	<p>Data byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ar ymatebion i sylwadau</p> <p>Dogfennau polisi Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol</p> <p><i>*Ymchwil ansoddol gyda staff Corff Llais y Dinesydd, comisiynwyr, darparwyr gwasanaethau, y trydydd sector, a rhanddeiliaid perthnasol eraill (gan gynnwys y cyhoedd a chleifion)</i></p>

Gwerthuso gweithrediad

4.29 Mae ffynonellau data posibl a allai helpu i fesur gweithrediad (gweithgareddau) Corff Llais y Dinesydd yn gorgyffwrdd yn sylweddol â'r rhai yn y tabl canlyniadau uchod. Maent yn cynnwys y canlynol:

- cynnwys yr ymgyrch yn y cyfryngau a chyhoedduswydd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o Gorff Llais y Dinesydd, a hyfforddiant a gwybodaeth i staff iechyd a gofal cymdeithasol ar Gorff Llais y Dinesydd
- adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru ac adroddiadau a gyflwynir gan Gorff Llais y Dinesydd i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch cyrff y GIG neu i bwyllgorau awdurdodau lleol perthnasol
- data a gasglwyd drwy'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd


- ymchwil ansoddol gydag aelodau o'r cyhoedd, y rhai sydd wedi ymgysylltu â Chorff Llais y Dinesydd, staff byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, a staff Llywodraeth Cymru

5. Penodi is-gadeiryddion statudol i ymddiriedolaethau'r GIG

Y ddamcaniaeth newid

- 5.1 Cyflwynir y ddamcaniaeth newid ar gyfer penodi is-gadeiryddion statudol i ymddiriedolaethau'r GIG isod.

Ffigur 4: Y ddamcaniaeth newid ar gyfer penodi is-gadeiryddion i ymddiriedolaethau'r GIG



Gweithgareddau

5.2 Mae'r gweithgareddau allweddol sy'n gysylltiedig â phenodi is-gadeiryddion statudol i ymddiriedolaethau'r GIG fel a ganlyn:

- **Penodi i swyddi is-gadeirydd am hyd at wyth mlynedd, gyda phob tymor yn uchafswm o bedair blynedd.** Dylid gwneud hyn yn ffurfiol trwy banel llunio rhestr fer / penodiadau (dan arweiniad yr Uned Penodiadau Cyhoeddus), ac i gyd-fynd â set sgiliau newydd, ddiffiniedig a phriodol sy'n cael ei chymhwyso'n gyson trwy fanylebau swydd safonol. Awgrymodd rhanddeiliaid hefyd y dylai'r cadeirydd chwarae rhan arwyddocaol yn y broses benodi, ac y dylai'r bwrdd perthnasol ddarparu adnoddau gweinyddol ategol ac adnoddau eraill (drwy ysgrifenyddiaeth y bwrdd, er enghraifft).
- **Is-gadeiryddion i gyflawni rôl safonol â thâl i gefnogi'r cadeirydd, gan gynnwys y canlynol:**
 - **Cefnogi'r cadeirydd ym mherfformiad a llywodraethu'r bwrdd**
 - **Cynnal gwerthoedd y GIG**
 - **Hyrwyddo hyder y cyhoedd a phartneriaid yn y bwrdd**
 - **Cymryd rhan yn Rhwydwaith Is-gadeiryddion Cymru Gyfan**
 - **Cyflawni swyddogaethau ychwanegol, fel y cytunwyd gan y cadeirydd**

5.3 Mewn perthynas ag is-gadeiryddion yn cyflawni swyddogaethau ychwanegol, cytunodd rhanddeiliaid yn gyffredinol y dylid ymgymryd â'r rhain ar lefel strategol yn hytrach na lefel weithredol, yn bennaf oherwydd yr amser cyfyngedig sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, os ydynt am gael rôl mewn ymgysylltu â'r gymuned, dywedwyd y dylent fod yn "*bencampwyr*" yn hytrach nag ymgymryd ag ymgysylltu uniongyrchol. At hynny, roedd teimlad y gallent helpu i hybu mwy o gydweithio ar draws ymddiriedolaethau'r GIG a byrddau iechyd, er y dylid gosod hyn ar lefel strategol hefyd yn hytrach na lefel weithredol.

5.4 Mae'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau tymor byr a chanolig arfaethedig yr agwedd hon ar y Ddeddf yn cael eu harchwilio isod.

Canlyniadau tymor byr

- 5.5 Y canlyniad tymor byr cyntaf ar gyfer penodi is-gadeiryddion statudol i ymddiriedolaethau'r GIG yw argaeledd **gwell cymorth i'r cadeirydd**. Ystyriwyd yn eang mai hwn oedd un o ganlyniadau mwyaf arwyddocaol y rôl o ran gwella gwytnwch y bwrdd cyfan, a'r cadeiryddion eu hunain o wybod bod adnodd pwrpasol i'w cefnogi pan fo angen wrth i'w rolau eu hunain ehangu.
- 5.6 Mae'n bwysig nodi, serch hynny, bod [memorandwm esboniadol](#) y Ddeddf yn egluro rôl yr is-gadeirydd fel un sydd ar wahân i rôl y cadeirydd, gan nodi bod y gwahaniaeth yn amhrisiadwy o ran sicrhau effeithiolrwydd a llywodraethu sefydliadol y bwrdd. Yn benodol, mae'n cyfeirio at allu is-gadeiryddion i gryfhau elfen annibynnol y bwrdd a chamu'n ôl o reolaeth weithredol; darparu barn, her a chymorth i'r bwrdd ar faterion allweddol; cyfrannu at waith y bwrdd yn seiliedig ar annibyniaeth, profiad blaenorol a gwybodaeth; a sicrhau prosesau gwneud penderfyniadau cydgysylltiedig, cadarn a thryloyw gan y bwrdd.
- 5.7 Yr ail ganlyniad tymor byr yw darparu **gallu a sgiliau arwain ychwanegol ar y bwrdd**. Ystyriwyd bod y capasiti cynyddol a gynigir gan yr is-gadeiryddion (a'r gallu i recriwtio cyfarwyddwr anweithredol ychwanegol lle mae is-gadeirydd presennol wedi'i gadarnhau yn y rôl statudol) yn fantais sylweddol bosibl o'u cyflwyno, ynghyd â'r posibilrwydd y gallai penodi i swydd gyda rôl ddiffiniedig a mwy o ymrwymiad amser arwain at ehangu'r gronfa ymgeisio trwy ennyn diddordeb gan ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr.
- 5.8 Mae pennu anghenion a setiau sgiliau ar ddechrau'r broses, datblygu manylebau swyddi sy'n adlewyrchu'r rhain, a bod yn ymwybodol o'r rhain hyd at y penodiad terfynol a'r gwiriadau yn hanfodol i sicrhau bod is-gadeiryddion yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol. Roedd cysylltu'n ôl yn barhaus â'r canlyniadau dymunol hefyd yn cael ei ystyried yn hollbwysig wrth ddewis yr unigolyn cywir gyda'r sgiliau cywir i helpu i'w cyflawni. Yn y bôn, teimlwyd y dylai dilyn llwybr recriwtio diffiniedig arwain at benodi rhywun â'r sgiliau i fod yn is-gadeirydd.
- 5.9 Y trydydd canlyniad tymor byr yw **cael gwared ar yr anghydraddoldebau presennol yn rôl yr is-gadeirydd** a'r pedwerydd yw bod **rôl yr is-gadeirydd yn dod yn fwy effeithiol a chyson ar draws ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru**. Dylai disgrifiadau swydd safonol, prosesau recriwtio a thâl helpu i

sicrhau cydraddoldeb a chysondeb, yn yr un modd â datblygu a gweithredu cynllun sefydlu a datblygu i Gymru gyfan (gydag elfennau pwrpasol ar gyfer rôl yr is-gadeirydd). Mae ffactorau eraill sy'n galluogi effeithiolrwydd a chysondeb yn cynnwys darparu cymorth gweinyddol, cyngor, a sesiynau briffio ar gyfer pob is-gadeirydd (a rennir yn aml gyda'r cadeirydd); is-gadeiryddion yn cymryd rhan yn rhwydwaith Is-gadeiryddion Cymru Gyfan a grwpiau cymheiriaid perthnasol eraill i sefydlu agweddau cyffredin a gwahaniaethau mewn ymagwedd rhwng ymddiriedolaethau'r GIG, byrddau iechyd ac Awdurdodau Iechyd Arbennig eraill; a sicrhau bod ymddiriedolaethau mor integredig â'r GIG ehangach â phosibl.

- 5.10 Yn gysylltiedig â hyn, cafwyd rhywfaint o drafodaeth ar sut y gallai perthnasoedd rhwng ymddiriedolaethau'r GIG ac is-gadeiryddion byrddau iechyd ddatblygu o ystyried bod y rolau yn eu hanfod yn wahanol. Ystyriwyd bod aliniad lle y bo'n bosibl yn bwysig fel y gall pob is-gadeirydd gael gwerth o Rwydwaith Is-gadeiryddion Cymru Gyfan a gwella deialog a dysgu a rennir yn genedlaethol.

Canlyniadau tymor canolig

- 5.11 Yr unig ganlyniad tymor canolig ar gyfer penodi is-gadeiryddion statudol i ymddiriedolaethau'r GIG yw **mwya o gysondeb a chryfder o ran arweinyddiaeth a llywodraethu ar draws byrddau ymddiriedolaethau'r GIG**. Dylai hyn, i lawer o randdeiliaid, fod yn ffocws llwyr wrth benodi is-gadeiryddion statudol i ymddiriedolaethau'r GIG. Ystyriwyd bod sicrhau gwytnwch hirdymor, parhad a gwell trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth drwy amddiffyn y swyddi hyn yn ddeddfwriaethol yn allweddol.
- 5.12 Dywedwyd bod yn rhaid bod yn ofalus i osgoi gor-uchelgais o ran yr hyn y gall rôl yr is-gadeirydd ei gyflawni. Dywedwyd bod gan fyrddau bedwar canlyniad lefel uchel: datblygu cyfeiriad strategol y sefydliad; dal y weithrediaeth i gyfrif wrth roi'r cyfeiriad hwnnw; hyrwyddo diwylliant ac ymddygiad sefydliadol; a rheoli risg. Dadleuodd rhanddeiliaid, er bod gan is-gadeiryddion ran bwysig i'w chwarae wrth gyflwyno'r rhain ar y cyd â'r cadeirydd ac aelodau eraill y bwrdd, mai bach iawn fydd eu heffaith arnynt ar eu pen eu hunain oherwydd natur gefnogol y rôl i raddau helaeth a'r ymrwymiad amser cyfyngedig dan sylw.

Rhwystrau a hwyluswyr

- 5.13 O ran rhwystrau i weithredu rhan is-gadeiryddion y Ddeddf (dylid archwilio pob un ohonynt mewn unrhyw werthusiad yn y dyfodol), codwyd diffyg adnoddau amlaf gan randdeiliaid. Roedd materion yn amrywio o'r amser a'r arian cynyddol sydd eu hangen ar gyfer y broses recriwtio gychwynnol (e.e. yr ymrwymiad amser sydd ei angen ar gyfer hysbysebu'r swydd a pharatoi ar gyfer peneli llunio rhestr fer a phenodi) hyd at sicrhau cyllid priodol ar gyfer y rôl ei hun. Er mwyn lliniaru hyn, dywedwyd y dylai codiadau tâl fod yn safonol ar draws holl ymddiriedolaethau'r GIG ac adlewyrchu cynnydd mewn cyfrifoldeb ac ymrwymiad, ac y dylid talu amdanynt gan y dyraniad cyllid i'r ymddiriedolaeth GIG pan wneir y rôl yn statudol.
- 5.14 Rhwystr arall a nodwyd rhag gweithredu oedd i ba raddau y mae disgrifiadau swydd safonol yn cael eu gwireddu yn rôl yr is-gadeirydd, yn enwedig o ystyried bod yr hyn a wireddir yn debygol o amrywio ar draws sefydliadau. Er mwyn lliniaru'r sefyllfa, awgrymwyd na ddylai'r disgrifiadau swydd fod yn rhy ddisgrifiadol nac yn rhagnodol, er mwyn cynnwys y gwahaniaethau hyn a'r angen am hyblygrwydd o fewn sefydliadau unigol.
- 5.15 Fel y crybwyllwyd uchod, mae'r amser sydd ar gael i is-gadeiryddion gyflawni eu rolau yn ffactor cyfyngol posibl, ac yn un y gellir ei oresgyn trwy nodi a chanolbwyntio ar ble y gallant ychwanegu'r gwerth mwyaf, a all eto amrywio ar draws sefydliadau.
- 5.16 Rhai o'r ffactorau sy'n galluogi gweithredu'r rhan hon o'r Ddeddf yw recriwtio'r unigolion cywir sydd â'r sgiliau cywir, a sicrhau bod ganddynt dâl ac amser priodol i gyflawni eu dyletswyddau. Nodwyd hefyd gydnabyddiaeth briodol o'r rôl ar lefel genedlaethol a pharch tuag ati fel hwylusydd.

Mesurau canlyniadau a ffynonellau data posibl

- 5.17 Mae'r tabl canlynol yn nodi mesurau canlyniadau a ffynonellau data posibl ar gyfer gwerthuso penodi is-gadeiryddion statudol i ymddiriedolaethau'r GIG:

Tabl 4: Mesurau canlyniadau a ffynonellau data posibl ar gyfer gwerthuso penodi is-gadeiryddion statudol i ymddiriedolaethau'r GIG

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn nodi angen newydd posibl o ran casglu data)
Tymor byr: Gwell cymorth i'r cadeirydd	I ba raddau y mae cymorth i'r cadeirydd yn cael ei wella	*Ymchwil ansoddol gyda chadeiryddion, is-gadeiryddion, aelodau eraill y bwrdd, ac eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â threfniadau llywodraethu neu y mae trefniadau llywodraethu yn effeithio arnynt
Tymor byr: Darparu capasiti a sgiliau arwain ychwanegol ar y bwrdd	I ba raddau y mae capasiti arwain yn cael ei wella o fewn y bwrdd Gwell ystod o sgiliau o fewn y bwrdd	Adolygiadau perfformiad is-gadeiryddion Disgrifiadau swydd is-gadeiryddion *Archwiliadau sgiliau aelodau'r bwrdd *Ymchwil ansoddol gyda chadeiryddion, is-gadeiryddion, aelodau eraill y bwrdd, ac eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â threfniadau llywodraethu neu y mae trefniadau llywodraethu yn effeithio arnynt
Tymor byr: Dileu anghydraddoldebau presennol yn rôl yr is-gadeirydd	Ymagweddau mwy cyson at rôl yr is-gadeirydd (h.y. recriwtio, ymrwymadau amser, tâl)	*Ymchwil ansoddol gyda chadeiryddion, is-gadeiryddion, aelodau eraill y bwrdd, ac eraill sy'n ymwneud â'r newid neu y mae'r newid yn effeithio arnynt
Tymor byr: Mae rôl yr is-gadeirydd yn dod yn fwy	I ba raddau y mae rôl yr is-gadeirydd wedi dod yn fwy	*Ymchwil ansoddol gyda chadeiryddion, is-

Canlyniad	Mesur(au) canlyniadau	Ffynonellau data posibl (mae * yn nodi angen newydd posibl o ran casglu data)
effeithiol a chyson ar draws ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru	effeithiol a chyson ar draws ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru	gadeiryddion, aelodau eraill y bwrdd, ac eraill sy'n ymwneud â'r newid hwn neu y mae'r newid hwn yn effeithio arnynt Adolygiadau perfformiad yr is-gadeirydd Papurau'r bwrdd
Tymor canolig: Gwell cysondeb a chryfder o ran arweinyddiaeth a llywodraethu ar draws byrddau ymddiriedolaethau'r GIG	Gwell cysondeb a chryfder o ran arweinyddiaeth a llywodraethu ar draws byrddau ymddiriedolaethau'r GIG Integreiddio ymddiriedolaethau i'r GIG ehangach yn fwy Presenoldeb is-gadeiryddion mewn fforymau Cymru gyfan a fforymau rhanbarthol a'u cyfranogiad ynddynt	Adolygiadau Archwilio Cymru o drefniadau llywodraethu ansawdd ¹² Nodiadau ar gyfarfodydd y bwrdd a phwyllgorau, a chyfarfodydd rhwng byrddau a gweinidogion *Ymchwil ansoddol gyda chadeiryddion, is-gadeiryddion, aelodau eraill y bwrdd, ac eraill sy'n ymwneud â'r newid hwn neu y mae'r newid hwn yn effeithio arnynt

Gwerthuso gweithrediad

5.18 Mae ffynonellau data posibl a allai helpu i werthuso gweithrediad penodi is-gadeiryddion statudol i ymddiriedolaethau'r GIG yn gorgyffwrdd yn sylweddol â'r rhai yn y tabl canlyniadau uchod. Gallent gynnwys:

- disgrifiadau swydd yr is-gadeirydd ac adolygiadau perfformiad

¹² Mae Archwilio Cymru yn adolygu trefniadau ansawdd a llywodraethu ymddiriedolaethau GIG unigol o bryd i'w gilydd ac yn cyhoeddi adroddiadau ar ei ganfyddiadau. Gellid defnyddio adroddiadau diweddar i lywio safbwyntiau ar gysondeb a chryfder arweinyddiaeth a llywodraethu mewn ymddiriedolaethau unigol.

- archwiliadau sgiliau aelodau'r bwrdd
- adolygiadau Archwilio Cymru o drefniadau llywodraethu ansawdd
- ymchwil ansoddol gyda chadeiryddion, is-gadeiryddion, aelodau eraill y bwrdd, ac eraill sy'n ymwneud â'r newid neu y mae'r newid yn effeithio arnynt

6. Data ar gyfer y gwerthusiad

Casglu data sylfaenol gyda rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau

6.1 Yn seiliedig ar y tablau canlyniadau uchod, mae'r tabl canlynol yn amlinellu pa rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau a allai fod yn rhan o'r gwaith o gasglu data newydd ar gyfer gwerthuso'r Ddeddf.

Tabl 5: Rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau i gymryd rhan mewn gwerthusiad o'r Ddeddf

Rhanddeiliad	Dull ymgysylltu	Y ddyletswydd ansawdd	Y ddyletswydd gonestrwydd	Corff Llais y Dinesydd	Is-gadeiryddion
Aelodau o'r cyhoedd	Cyfweliad au manwl / grwpiau ffocws	*	*	*	
Staff y GIG yn gyffredinol	Cyfweliad au manwl / grwpiau ffocws	*	*	*	
Staff gofal cymdeithasol yn gyffredinol	Cyfweliad au manwl / grwpiau ffocws			*	
Defnyddwyr gwasanaethau (a/neu eu teuluoedd) sydd wedi profi digwyddiadau sydd wedi	Cyfweliad au manwl / grwpiau ffocws		*		

Rhanddeiliad	Dull ymgysylltu	Y ddyletswydd ansawdd	Y ddyletswydd gonestrwydd	Corff Llais y Dinesydd	Is-gadeiryddion
sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd					
Defnyddwyr gwasanaeth eirioli Corff Llais y Dinesydd	Holiadur			*	
Pobl sydd wedi ymgysylltu â Chorff Llais y Dinesydd	Cyfweliad au manwl / grwpiau ffocws / holiadur				
Staff y GIG sydd wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol (e.e. staff sy'n adrodd ac yn ymchwilio i'r pryder; cyswllt arweiniol y teulu) ac yn anuniongyrchol (e.e. uwch-reolwyr; arweinwyr clinigol) â digwyddiadau sydd wedi sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd	Cyfweliad au manwl / grwpiau ffocws		*		
Aelodau o Gronfa Risg Cymru ym Mhartneriaeth	Cyfweliad au manwl / grwpiau ffocws		*		

Rhanddeiliad	Dull ymgysylltu	Y ddyletswydd ansawdd	Y ddyletswydd gonestrwydd	Corff Llais y Dinesydd	Is-gadeiryddion
Cydwasaethau GIG Cymru ¹³					
Contractwyr annibynnol sy'n gweithio i'r GIG	Cyfweliadau manwl / grwpiau ffocws ¹⁴	*	*	*	
Sefydliadau sy'n cynrychioli'r cyhoedd, megis Corff Llais y Dinesydd, sefydliadau'r trydydd sector, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, cynghorwyr lleol, ac aelodau'r Senedd	Cyfweliadau manwl / grwpiau ffocws		*	*	
Is-gadeiryddion, cadeiryddion, ac aelodau eraill o fyrddau ymddiriedolaethau'r GIG a phrif	Cyfweliadau manwl / grwpiau ffocws				*

¹³ Mae aelodau Cronfa Risg Cymru yn monitro cwynion defnyddwyr gwasanaethau, yn delio ag achosion [Gweithio i Wella](#), yn meddu ar wasanaethau cyfreithiol a risg sy'n delio â hawliadau, ac yn gwerthuso gwasanaethau ar ddigwyddiadau diogelwch, cwynion a hawliadau.

¹⁴ Wedi penodi drwy Bwyllgor Meddygon Teulu Cymru a chyrrff negodi statudol meddygol eraill. Pwyllgor Meddygon Teulu Cymru yw'r corff cynrychioliadol statudol ar gyfer meddygon teulu yng Nghymru.

Rhanddeiliad	Dull ymgysylltu	Y ddyletswydd ansawdd	Y ddyletswydd gonestrwydd	Corff Llais y Dinesydd	Is-gadeiryddion
weithredwyr yn y GIG					

6.2 Gellid ystyried arolwg poblogaeth pwrpasol i ofyn cwestiynau penodol i gasglu data ar y canlyniadau yn y damcaniaethau newid. Fodd bynnag, er y byddai hyn yn galluogi casglu data sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r canlyniadau yn hytrach na mesurau dirprwyol, byddai'n drwm iawn ar adnoddau.

Ffynonellau data eilaidd

6.3 Fel y nodwyd yn yr adrannau blaenorol, mae nifer o ffynonellau data eilaidd y gellid o bosibl eu defnyddio yn y gwerthusiad. Fodd bynnag, lle nad yw Llywodraeth Cymru yn berchen ar y data, byddai angen iddi archwilio a ellid cael mynediad at y data i lywio'r gwerthusiad:

- Yr Arolwg Cenedlaethol (hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu cwestiynau newydd)
- Arolwg staff y GIG (hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o ychwanegu cwestiynau newydd)
- Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion
- Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion
- Data CIVICA ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau
- Data arolygon y gweithlu gofal cymdeithasol
- Cofnodion cyfarfodydd rhwng Llywodraeth Cymru a chyrrff y GIG
- Papurau a nodiadau bwrdd a phwyllgor y GIG
- Dogfennau polisi Llywodraeth Cymru a'r GIG
- Adroddiadau arolygu AGIC ac AGC
- Adolygiadau Archwilio Cymru o lywodraethu ansawdd
- Adroddiadau "ar waith bob amser" ar gyfer y ddyletswydd ansawdd

- Adroddiadau blynyddol ar y ddyletswydd ansawdd, y ddyletswydd gonestrwydd a Chorff Llais y Dinesydd
- Data Unwaith i Gymru Datix Cymru
- Cofnodion [Gweithio i Wella](#) ym mhob bwrdd iechyd
- Data ar gwynion defnyddwyr gwasanaethau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru; byrddau iechyd; awdurdodau lleol
- Adroddiadau a gyflwynir gan Gorff Llais y Dinesydd i Bwyllgorau Ansawdd a Diogelwch cyrff y GIG neu i bwyllgorau awdurdodau lleol perthnasol
- Data a gasglwyd drwy system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd Corff Llais y Dinesydd
- Data Corff Llais y Dinesydd ar sylwadau, a data Corff Llais y Dinesydd, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ar ymatebion i sylwadau
- Data ar gyrhaeddiad cyfryngau cymdeithasol Corff Llais y Dinesydd, argraffiadau clicio drwedd, ac ymweliadau â gwefannau
- Cofnodion Cynghorau Iechyd Cymuned ar sylwadau ac adroddiadau blynyddol y Cynghorau Iechyd Cymuned i nodi llinell sylfaen / at ddibenion meincnodi
- Disgrifiadau swydd is-gadeiryddion
- Adolygiadau perfformiad is-gadeiryddion
- Archwiliadau sgiliau aelodau byrddau'r GIG

Ystyriaethau data

6.4 Cesglir rhywfaint o ddata presennol a allai fod yn berthnasol trwy'r Arolwg Cenedlaethol, arolwg staff y GIG, Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion, Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion, a phlatform CIVICA. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru hefyd am archwilio'r potensial ar gyfer cynnwys cwestiynau newydd â mwy o ffocws yn yr Arolwg Cenedlaethol ac arolwg staff y GIG. Mae'r data hyn yn feintiol yn bennaf, yn deillio o raddfeydd Likert/graddio neu feysydd ymateb ie/na, ac maent wedi'u cynllunio at ddibenion ehangach. Efallai y byddant yn rhoi cipolwg ar gryfder teimladau ymatebwyr ar faterion sy'n berthnasol i'r Ddeddf. Fodd bynnag, mae casglu data ansoddol (cyfweliadau a/neu grwpiau

ffocws) gyda defnyddwyr gwasanaethau a staff yn cael ei awgrymu'n aml fel ffynhonnell ddata ychwanegol i roi mewnwelediad dyfnach i'w safbwyntiau sy'n ymwneud yn benodol â'r Ddeddf.

- 6.5 Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar yr Arolwg Cenedlaethol, felly byddai'n gallu cyrchu'r data at ddibenion gwerthuso. Fodd bynnag, mae cynnwys cwestiynau yn cael ei ystyried yn flynyddol ac yn cael ei gyfyngu gan gyfyngiadau ar hyd yr arolwg, felly byddai angen gofyn am gwestiynau perthnasol ac nid oes sicrwydd y cânt eu cynnwys.
- 6.6 Bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru a/neu'r gwerthuswr ddeall pa waith ymchwil a chasglu data sydd ar y gweill ar hyn o bryd o fewn ac ar draws byrddau iechyd, a sefydlu sut y gall y gwerthusiad asio â'r gwaith hwn, yn hytrach na'i ddyblygu.
- 6.7 Mae'r tablau canlyniadau sy'n ymwneud â phob maes o'r Ddeddf yn argymhell mesurau canlyniadau ar gyfer y canlyniadau tymor byr, canolig a hir yn y damcaniaethau newid. Fodd bynnag, roedd mesurau canlyniadau yn cael eu datblygu ar gyfer y meysydd ansawdd, fel y nodwyd yn y [canllawiau statudol](#). Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y dylid datblygu modelau gweithredu safonol i safoni prosesau a gweithgareddau craidd ar y cyd â'r mesurau i fynd i'r afael ag amrywiadau mewn ansawdd, ac y dylid ymgorffori'r mesurau mewn system sy'n dadansoddi ac yn bwydo'n ôl ar effaith gwelliannau ansawdd (Llywodraeth Cymru, 2022). Pan fyddant ar gael, dylid ystyried y mesurau canlyniadau hyn mewn unrhyw werthusiad o'r ddyletswydd ansawdd.
- 6.8 Yn ystod y gweithdai, soniodd rhanddeiliaid fod rhywfaint o waith ymchwil eisoes yn cael ei wneud gyda staff y GIG i archwilio diwylliant diogelwch (gan Gwelliant Cymru), ond roedd maint a natur y gwaith hwn yn aneglur. Roedd awgrym efallai y gellid ehangu'r gwaith hwn i archwilio canfyddiadau a phrofiadau sy'n ymwneud â'r ddyletswydd ansawdd at ddibenion gwerthuso.
- 6.9 Dylai Llywodraeth Cymru archwilio unrhyw botensial ar gyfer cysylltu data drwy [gronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddiennw](#) i lywio'r gwerthusiad. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd archwilio sut, os o gwbl, y gallai'r [Adnodd Data Cenedlaethol](#) fod yn ddefnyddiol er mwyn llywio gwerthusiad o'r Ddeddf. Mae'r Adnodd Data Cenedlaethol yn blatfform data cenedlaethol newydd sy'n dod â data

am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o bob rhan o Gymru ynghyd. Mae wrthi'n cael ei ddatblygu. Yn y dyfodol, gall, er enghraifft, alluogi cysylltiadau data a all hwyluso archwiliadau manwl o'r berthynas rhwng dangosyddion ansawdd a diogelwch.

- 6.10 Dylai'r gwerthuswr geisio sefydlu llinell sylfaen ar gyfer pob maes o'r Ddeddf, lle bo'n berthnasol ac yn ymarferol, er mwyn mesur ei effaith yn gywir. Bydd sefydlu llinell sylfaen o weithgarwch a pherfformiad Cynghorau Iechyd Cymuned i feincodi data Corff Llais y Dinesydd yn y dyfodol yn ei herbyn yn anodd, meddai rhanddeiliaid (er efallai y bydd 'ciplun' yn bosibl o'r treial diweddar o'r feddalwedd Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd a grybwyllwyd uchod). Dywedwyd y gallai fod yn bosibl "*sgrafangu trwy bethau*" am rywfaint o wybodaeth am weithgarwch a chanlyniadau, ond y byddai'n drwm o ran adnoddau i wneud hynny oherwydd bod yr wybodaeth honno wedi'i chasglu mewn amrywiaeth o wahanol leoedd mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. At hynny, er bod Datix Cymru yn cael ei ddefnyddio gan y Cynghorau Iechyd Cymuned ar hyn o bryd, mae hyn ar gyfer gweithgarwch sy'n ymwneud ag eiriolaeth yn unig ac mewn ffordd nad yw'n galluogi cwestiynu data'n fanwl. Hefyd mewn perthynas â'r feddalwedd Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, ni chwblhawyd y gwaith o'i chyflwyno'n llawn erbyn mis Ebrill 2023, sy'n golygu y bydd yn rhaid defnyddio'r system hyn a llai cynhwysfawr i ddechrau. Gallai hyn fod â goblygiadau o ran casglu data i ddangos tystiolaeth o rai o'r canlyniadau a amlinellwyd uchod yn y camau cynnar.
- 6.11 Yn ôl rhanddeiliaid, efallai y bydd bylchau yn y data sydd ar gael o leoliadau gofal sylfaenol, yn arbennig i lywio'r gwerthusiad o'r ddyletswydd gonestrwydd. Nodwyd bod adrodd am ddigwyddiadau mewn lleoliadau gofal eilaidd yn tueddu i fod yn fwy cyson nag mewn lleoliadau gofal sylfaenol. Os yw hwn yn wir, bydd yn cyfyngu ar allu'r gwerthusiad i gael darlun llawn o weithrediad ac effaith y Ddeddf.
- 6.12 Mewn perthynas â'r ddyletswydd gonestrwydd a Chorff Llais y Dinesydd (fel y nodir mewn man arall), tynnodd rhanddeiliaid sylw at anghysondeb posibl rhwng yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd ar lawr gwlad a'r hyn a adlewyrchir yn y niferoedd. Bydd hyn yn ei gwneud yn anodd sefydlu a yw unrhyw newidiadau a welir yn deillio o newidiadau mewn ansawdd neu newidiadau mewn dulliau adrodd.

Cysylltiadau rhwng y gwahanol rannau o'r Ddeddf

- 6.13 Mae pob rhan o'r Ddeddf yn wahanol ac yn meddu ar ei damcaniaeth newid ei hun, felly byddai'n well eu gwerthuso fel rhannau unigol yn hytrach nag yn eu cyfanrwydd. Fodd bynnag, mae cysylltiadau a gorgyffwrdd rhwng y rhannau, yn ogystal â chyfleoedd i gydgrynhoi casglu data, sy'n golygu ei bod yn debygol y bydd gwerth eu cyfuno fel pedair rhan ar wahân o fewn un ymarfer gwerthuso trosfwaol.
- 6.14 Fel y mae enw'r Ddeddf yn ei awgrymu, y themâu sy'n rhedeg drwyddi draw yw ansawdd a gosod y claf wrth wraidd y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau, yn enwedig ar gyfer y ddyletswydd ansawdd, y ddyletswydd gonestrwydd, a Chorff Llais y Dinesydd. Er enghraifft, mae'r ddyletswydd ansawdd yn ceisio sicrhau bod gwasanaeth o safon yn cael ei ddarparu i gleifion, ac mae gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn un o'r chwe maes ansawdd. Mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn ceisio rhoi anghenion cleifion yn gyntaf pan aiff pethau o chwith, a dylai wella ansawdd, diogelwch a phrofiad trwy ddealltwriaeth well o ddigwyddiadau sy'n arwain at niwed y gellir ei osgoi a staff perthnasol yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud gwelliannau i fynd i'r afael â nhw. Mae Corff Llais y Dinesydd yn sicrhau bod lleisiau'r cyhoedd yn cael eu clywed a'u defnyddio i lunio gwasanaethau, a ddylai helpu i wella ansawdd a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau.
- 6.15 Adlewyrchir y themâu hyn yn gyffredin mewn tebygrwydd mewn rhai canlyniadau hirdymor a thymor canolig yn y damcaniaethau newid. Gallai'r gwerthusiad felly gynnwys pedair rhan ar wahân, ond hefyd elfen gyffredinol sy'n dwyn ynghyd y cysylltiadau yn eu nodau cyffredinol. Gallai'r elfen hon hefyd archwilio sut mae eu gweithgareddau'n ategu ac yn cefnogi ei gilydd i gyflawni'r canlyniadau dymunol.
- 6.16 Yn olaf, mae Tabl 5 ar gasglu data sylfaenol gyda rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau yn awgrymu y gallai ymchwil ansoddol gydag aelodau o'r cyhoedd; staff y GIG a chontractwyr annibynnol; a chynrychiolwyr cyrff fel Corff Llais y Dinesydd neu sefydliadau'r trydydd sector lywio gwerthusiadau o fwy nag un rhan o'r Ddeddf. Felly, bydd cyfuno'r gweithgareddau ymchwil ansoddol, lle bo'n ymarferol, yn helpu i leihau'r baich ar y cyfranogwyr hyn yn ogystal ag adnoddau gwerthuso. Mae'n bosibl hefyd y bydd potensial i'r gwerthusiad asio â

gweithgareddau ymgysylltu Corff Llais y Dinesydd i archwilio safbwyntiau aelodau'r cyhoedd.

Ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn y gwerthusiad

- 6.17 Dywedodd rhanddeiliaid y byddai'r Ddeddf yn helpu i wella'r system gofal iechyd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, sy'n cysylltu i'r graddau mwyaf â'r nod llesiant o 'Gymru iachach' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nodwyd ganddynt hefyd gysylltiad â Chymru fwy cyfartal. Mae'r cyswllt hwn yn arbennig o amlwg mewn perthynas â Chorff Llais y Dinesydd, gyda'i nod o gyrraedd ystod eang o ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys pobl sy'n cael eu clywed llai. Mae hefyd yn amlwg ym maes 'tegwch' y ddyletswydd ansawdd. Yn unol â hynny, mae Cymru iachach a Chymru fwy cyfartal yn cael eu hadlewyrchu yn rhai o'r canlyniadau yn y damcaniaethau newid. Gallai'r gwerthusiad geisio gwneud y cysylltiadau hyn yn fwy eglur, er mwyn asesu cyfraniad y Ddeddf at y nodau hyn.
- 6.18 Mae rhai cysylltiadau amlwg hefyd wedi'u gwneud rhwng y Ddeddf a'r pum ffordd o weithio. Er enghraifft, mae'r [canllawiau statudol ar y ddyletswydd ansawdd](#) yn datgan bod y ddyletswydd ansawdd yn cefnogi meddwl hirdymor, a gweithredu integredig a chydweithredol (Llywodraeth Cymru, 2022). Gallai'r gwerthusiad geisio archwilio'r ffyrdd y mae'r pum ffordd o weithio wedi'u hymgorffori wrth weithredu'r Ddeddf. Yn olaf, gellid mabwysiadu'r pum ffordd o weithio yn benodol yn y ffordd y cynhelir y gwerthusiad.

Goblygiadau'r amgylchedd polisi ehangach ar gyfer y gwerthusiad

- 6.19 Bydd yn anodd asesu effaith y Ddeddf oherwydd y llu o ffactorau a mentrau sy'n dylanwadu ar y canlyniadau sy'n gysylltiedig â hi. Er bod gwerthuso'n dal yn bosibl ac yn werth chweil, dylid cofio y bydd newidynnau allanol ar waith sy'n dylanwadu ar y canlyniadau o fewn y damcaniaethau newid.
- 6.20 Yn benodol, gallai sawl polisi a strategaeth fod â goblygiadau ar gyfer gweithredu'r Ddeddf, ac effeithio ar y canlyniadau sydd o ddiddordeb i'r gwerthusiad. Dylid cadw'r rhain mewn cof wrth gynllunio a chynnal y gwerthusiad. Er enghraifft, bu rhai rhanddeiliaid yn trafod y cysylltiadau â [Chymru iachach \(2021\)](#), sef cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, sydd â gwella iechyd a

llesiant y boblogaeth; gwella ansawdd a gwerth y gwasanaethau a ddarperir; a gweithlu cynaliadwy, ymgysylltiol fel daliadau allweddol.

- 6.21 Mae'r [Fframwaith Clinigol Cenedlaethol \(2021\)](#) yn nodi gweledigaeth ar gyfer datblygiad strategol a lleol gwasanaethau clinigol y GIG, gyda golwg ar wella canlyniadau cleifion. Mae'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer sut y dylid cynllunio a datblygu gwasanaethau clinigol yng Nghymru yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus sy'n seiliedig ar werthoedd. Nododd y rhanddeiliaid fod y fframwaith yn llywio gwaith gweithrediaeth y GIG mewn perthynas â'r Ddeddf, ac ar lunio gwasanaethau'r GIG.
- 6.22 Dywedodd rhanddeiliaid y dylai'r gwerthusiad hefyd ystyried [canllawiau diweddaedig Gweithio i Wella](#). Mae drafft o'r [canllawiau diweddaedig](#) yn rhan o'r ymgynghoriad ar y ddyletswydd gonestrwydd, a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2022.
- 6.23 Gall cydfodolaeth y polisiau a strategaethau hyn â'r Ddeddf ei gwneud yn fwy anodd ynysu dylanwad y Ddeddf ar y canlyniadau o ddiddordeb. Ni all dyluniadau gwerthuso anarbrofol fel yr hyn a gynigir yn yr adran nesaf ddiystyru dylanwad polisiau a strategaethau sy'n cydfodoli. Fodd bynnag, mae'r dull dadansoddi cyfraniadau a argymhellir (gweler Adran 7) yn addas ar gyfer gwerthuso newidiadau cymhleth a chymryd ffactorau dylanwadol eraill i ystyriaeth.

7. Argymhellion

Dull gwerthuso cyffredinol

- 7.1 Nid yw rhai methodolegau penodol yn ymarferol ar gyfer gwerthuso effeithiau'r Ddeddf. Nid yw dyluniadau arbrofol a lled-arbrofol, er enghraifft, yn bosibl oherwydd bod y Ddeddf yn ymwneud â gwneud newidiadau sy'n effeithio ar boblogaeth gyfan Cymru, sy'n golygu nad yw'n bosibl sefydlu rhagdybiaeth wrthffeithiol. Mae'r Ddeddf yn cynnwys newidiadau cymhleth, heb eu cyfyngu i ymyriad neu raglen benodol. Bydd hefyd yn cael ei weithredu mewn cyd-destunau cymhleth, amrywiol a chyfnewidiol (h.y. gwleidyddol, polisi, cymdeithasol a threfniadol) lle mae newidynnau dryslyd sydd â goblygiadau i'r canlyniadau yn gyforiog.
- 7.2 Fel dull amgen seiliedig ar damcaniaethau, mae dadansoddi cyfraniadau ([Mayne, 2001](#); [Mayne, 2012](#)) yn ceisio nodi i ba raddau y mae polisiau, rhaglenni neu

wasanaethau yn achosi canlyniadau a arsylwyd trwy brofi damcaniaethau newid yn erbyn tystiolaeth newydd a phresennol a nodi ffactorau dylanwadol eraill. Yn hytrach na cheisio asesu'r rhagdybiaeth wrthffeithiol (h.y. yr hyn a fyddai wedi digwydd heb y Ddeddf), nod dadansoddi cyfraniadau yw sefydlu achosiaeth mewn sefyllfaoedd cymhleth yn rhesymol, gan gydnabod y gallai'r rhaglen, y polisi neu'r ymyriad dan sylw fod â dylanwad, ynghyd â ffactorau eraill.

- 7.3 Mae'n well dadansoddi cyfraniadau yn ailadroddol, dros amser, trwy greu dealltwriaeth gynyddol o pam mae canlyniadau'n cael eu cyflawni (neu beidio) ([Mayne, 2010, yn Forss, Marra, a Schwartz, 2011](#)). Yn unol â dull dadansoddi cyfraniadau, dylai'r gwerthuswr adolygu'r damcaniaethau newid o bryd i'w gilydd drwy gydol y gwerthusiad i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu pob maes o'r Ddeddf yn gywir.
- 7.4 Mae cyfnodau allweddol dadansoddi cyfraniadau fel a ganlyn (addaswyd o Mayne, 2001; 2010). Mae'r asesiad gwerthusadwyedd eisoes wedi dechrau ar y camau cychwynnol; dylai'r gwerthusiad atgyfnerthu ac ymestyn y gwaith hwn.
- 1. Nodi'r broblem priodoli i'w hasesu: nodi'r canlyniadau y disgwylir iddynt newid, a'r ffactorau dylanwadol eraill.
 - 2. Datblygu'r ddamcaniaeth newid, gan egluro canlyniadau, risgiau a thybiaethau tymor byr, tymor canolig, hirdymor, ac annisgwyl neu anfwriadol.
 - 3. Casglu tystiolaeth sy'n bodoli ar y ddamcaniaeth newid, gan ddefnyddio tystiolaeth bresennol.
 - 4. Casglu ac asesu stori'r cyfraniad, gan ddefnyddio tystiolaeth bresennol ac adborth gan randdeiliaid, nodi bylchau gwybodaeth o amgylch data a thystiolaeth, ac adeiladu llinell sylfaen gadarn.
 - 5. Casglu tystiolaeth ychwanegol: nodi pa ddata a thystiolaeth newydd sydd eu hangen a'u casglu, gyda mewnbwn gan gydweithwyr polisi.
 - 6. Adolygu a chryfhau stori'r cyfraniad: bydd y data a'r dystiolaeth newydd yn dechrau cyflawni hyn drwy broses ailadroddol, gan gynnwys o bosibl adolygu'r ddamcaniaeth newid.

7.5 Argymhellwn felly ddefnyddio dull cymysg o ddadansoddi cyfraniadau i werthuso'r Ddeddf. Dylai gyfuno meysydd prosesau a chanlyniadau sy'n ceisio nodi effeithiau pob rhan o'r Ddeddf a'r mecanweithiau ar gyfer cyflawni'r effeithiau hyn, wedi'u seilio ar y damcaniaethau newid. Dylid gwneud hyn drwy goladu a chyfuno mewnwelediad o ddata meintiol, ffynonellau dogfennol, ac ymgysylltu ansoddol â defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd, staff iechyd (a gofal cymdeithasol) perthnasol a rhanddeiliaid eraill (gweler adrannau 2-6). Mae [canllawiau atodol Llywodraeth y DU yn y Llyfr Magenta](#) ar ymdrin â chymhlethdod wrth werthuso polisi (2020a) hefyd yn nodi gwerth dulliau sy'n seiliedig ar ddamcaniaethau, gan gynnwys dadansoddi cyfraniadau, a dylid cyfeirio atynt wrth ddylunio'r dull gwerthuso.

Gwerth am arian

7.6 Byddai asesu gwerth am arian y Ddeddf yn gymhleth ac mae'r opsiynau'n debygol o fod yn gyfyngedig. Byddai angen ystyried pob un o rannau lluosog y Ddeddf ar wahân. Mae asesiad gwerth am arian yn gofyn am ddata cywir ar gostau, sy'n debygol o fod yn heriol. Er enghraifft, byddai'n anodd ynysu costau parhaus cyflawni rhai rhannau o'r Ddeddf, yn enwedig y ddyletswydd ansawdd. Nid yw llawer o'r canlyniadau a nodwyd yn y damcaniaethau newid wedi'u diffinio'n dda eto ac maent yn debygol o fod yn anodd eu mesur neu eu trosi i werth ariannol.

7.7 Efallai y bydd cyfle i ystyried dadansoddiad o ganlyniadau cost ar gyfer rhai rhannau o'r Ddeddf. Mae dadansoddiad o ganlyniadau cost yn fath o werthusiad economaidd sy'n asesu costau a chanlyniadau (effeithiau) cynhyrchion ac yn adrodd arnynt yn unigol. Mae dadansoddiadau o ganlyniadau cost yn cynnwys yr holl effeithiau, megis iechyd a rhai nad ydynt yn ymwneud ag iechyd, a rhai negyddol a chadarnhaol, ar ddefnyddwyr gwasanaethau ac eraill (e.e. gofalwyr). Gall penderfynwyr ddewis pa gostau a buddion sydd fwyaf perthnasol i'w buddiannau a'u pwysoli yn unol â hyn (Llywodraeth y DU, 2020b).

7.8 Fel man cychwyn, gallai Llywodraeth Cymru ystyried pa ddata ar gostau sefydlu a chostau cyflawni parhaus y gellid eu darparu. Wrth i'r cynlluniau gwerthuso gael eu cwblhau, bydd natur a chwmpas y data canlyniadau hefyd yn dod yn gliriach.

Byddai'r ddealltwriaeth hon yn caniatáu ystyried dichonoldeb a chadernid tebygol (ac felly gwerth) y math hwn o ddadansoddiad.

Ystyriaethau pellach

- 7.9 Darperir rhai argymhellion yn Adran 6 sy'n ymwneud â data cynradd ac eilaidd; cyfuno pedair rhan y Ddeddf o fewn y gwerthusiad; ystyried polisïau a dylanwadau eraill ar y canlyniadau; ac ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yma rydym yn rhoi rhai ystyriaethau pellach ar gyfer y gwerthusiad.
- 7.10 O ran amserlenni, dylid sicrhau canlyniad tymor byr yn ddi-oed ar ôl gweithredu, ond mae'r amserlen ar gyfer cyflawni canlyniadau tymor canolig a hirdymor yn llai clir. Dylai'r gwerthusiad geisio ymgorffori'r canlyniadau tymor byr a chanolig. Fodd bynnag, gan mai dim ond y tair blynedd gyntaf o weithredu y bydd y gwerthusiad yn eu cwmpasu, bydd yn rhy fuan i ddisgwyl i'r canlyniadau hirdymor gael eu gwireddu. Dylid ystyried a ellid mesur y canlyniadau hirdymor ar ôl cwblhau'r gwerthusiad cychwynnol, a sut.
- 7.11 Ni allai'r asesiad gwerthusadwyedd sefydlu maint y canlyniadau a ragwelwyd, ac felly dylid ystyried hyn fel rhan o'r gwerthusiad. Dylid casglu a dadansoddi data ar adegau allweddol drwy gydol y gwerthusiad. Dylai hyn gynnwys olrhain cynnydd mewn canlyniadau dros gyfnodau penodol o amser a, lle bo'n berthnasol ac yn ymarferol, ymgysylltu â'r un defnyddwyr gwasanaethau mewn ymchwil ansoddol ar adegau gwahanol. Er enghraifft, gallai hyn olygu ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi profi niwed yn syth ar ôl i'r ddyletswydd gonestrwydd gael ei sbarduno, a sawl mis wedyn. Dylid ystyried cymhellion a mecanweithiau adborth priodol i sicrhau ymgysylltiad parhaus defnyddwyr gwasanaethau. Os bydd adnoddau ac amser yn gyfyngedig, gellid cynnal gwerthusiad 'ciplun' untro, ond byddai ei ganfyddiadau'n llai craff.
- 7.12 Dylid nodi bod rhai rhanddeiliaid yn cwestiynu gwerth gwerthuso rhan is-gadeiryddion y Ddeddf yn erbyn canolbwyntio'n fanylach ar rannau eraill o'r Ddeddf, o ystyried y newid cymharol fach dan sylw. Roedd eraill, fodd bynnag, yn gweld angen i asesu'r canlyniadau, er enghraifft i gyfiawnhau buddsoddi arian ac amser, ac i alluogi dysgu yn y dyfodol ar werth cyflwyno newidiadau o'r fath mewn meysydd eraill.

- 7.13 Mae rôl is-gadeirydd eisoes wedi bodoli (ar sail anstatudol) ers peth amser mewn rhai ymddiriedolaethau'r GIG, ond nid yw'r rôl wedi bodoli mewn unrhyw ffurf mewn eraill. Dylai unrhyw werthusiad felly geisio nodi pa wahaniaeth y mae cyflwyno'r rôl statudol wedi'i wneud, gan gynnwys y fantais o allu ychwanegol lle'r oedd y rôl yn bodoli ar sail anstatudol yn flaenorol.
- 7.14 Wrth gynnwys rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau (a/neu eu gofalwyr) yn y gwerthusiad, rhaid cymryd gofal i osgoi ail drawma. Mae'r pwynt hwn yn ymwneud yn fwy penodol â gwerthuso'r ddyletswydd gonestrwydd lle mae defnyddwyr gwasanaethau wedi'u niweidio, ond mae hefyd yn berthnasol yn gyffredinol i'r gwaith o werthuso'r Ddeddf. Dylid rhoi gwybodaeth fanwl i ddefnyddwyr gwasanaethau am y gwerthusiad a beth fydd cymryd rhan yn ei olygu. Dylai ymchwilwyr fod wedi'u hyfforddi ac yn brofiadol wrth gynnal ymchwil sensitif gyda chyfranogwyr a allai fod yn agored i niwed. Dylid cyfeirio cyfranogwyr ac ymchwilwyr at ffynonellau cymorth penodol cyn ac ar ôl i'r ymchwil ddigwydd.
- 7.15 Dylai'r gwerthusiad gael ei gynnal gan ymchwilwyr annibynnol â'r sgiliau priodol er mwyn sicrhau gwrthrychedd. Dylai fod gan y gweithlu iechyd (a gofal cymdeithasol) ddigon o amser i gefnogi'r gwerthusiad, er y dylai'r gwerthusiad geisio osgoi rhoi gormod o faich ychwanegol arnynt. Byddem hefyd yn argymhell bod cyrff y GIG, awdurdodau lleol a Chorff Llais y Dinesydd yn sicrhau bod y data perthnasol ar gael, lle bo'n bosibl, a defnyddio eu perthynas â defnyddwyr gwasanaethau i gefnogi eu hymgysylltiad effeithiol ac ystyrlon yn y gwerthusiad.

Cyfeiriadau

Australian Commission on Safety and Quality in Health Care (2023). Development of the Australian Hospital Survey on Patient Safety Culture. Ar gael yn: [Development of the Australian Hospital Survey on Patient Safety Culture | Australian Commission on Safety and Quality in Health Care](#)

Brunner, R., Craig, P., a Watson, N. (2019). Evaluability assessment: An application in a complex community improvement setting. Evaluation, 25 (3), tt. 349-365. Dynodydd Gwrthrych Digidol: 10.1.1177/1356389019852126. Ar gael yn: [Evaluability assessment: An application in a complex community improvement setting \(sagepub.com\)](#)

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Ar gael yn: [Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Ansawdd ac Ymgysylltu\) \(Cymru\) 2020 \(legislation.gov.uk\)](#)

Longley, M., Llewellyn, M., a Simpson, A. (2012). Moving Towards World Class? A Review of Community Health Councils in Wales. Caerdydd: Sefydliad Gofal Cymdeithasol Cymru. Ar gael yn: [MOVING TOWARDS WORLD CLASS \(decymru.ac.uk\)](#)

Mayne, J. (2001). Addressing Attribution Through Contribution Analysis: Using Performance Measures Sensibly. Canadian Journal of Program Evaluation. 16. 1-24.

Mayne, J. (2010). Contribution Analysis: Addressing Cause and Effect. Yn Forss, K., Marra, M., a Schwartz, R. (2011). Evaluating the Complex. New Jersey: Transaction Publishers.

Mayne, J. (2012). Contribution analysis: Coming of age? Evaluation, 18 (3), 270-280.

Uned Gyflawni GIG Cymru (2021). Polisi Digwyddiadau Diogelwch Cleifion. Ar gael yn: <https://du.nhs.wales/files/incidents/patient-safety-incident-policy-2021-05-10-pdf2-pdf/>

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011. Ar gael yn: [Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn\) \(Cymru\) 2011 \(legislation.gov.uk\)](#)

Llywodraeth y DU (2020a). Y Llyfr Magenta. Canllawiau'r llywodraeth ganolog ar werthuso. Llundain: Trysorlys Ei Fawrhydi. Ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/the-magenta-book>

Llywodraeth y DU (2020b). Cost consequence analysis: health economic studies. Llundain: HMSO [ar-lein] Ar gael yn: <https://www.gov.uk/guidance/cost-consequence-analysis-health-economic-studies>

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar gael yn: [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 \(legislation.gov.uk\)](#)

Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Adnodd Data Cenedlaethol, GIG Cymru, ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru GIG Cymru (2022). Strategaeth Ddata'r Adnodd Data Cenedlaethol. Ar gael yn: [Strategaeth Ddata'r Adnodd Data Cenedlaethol \(gig.cymru\)](#)

Llywodraeth Cymru (2018). Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru Ar gael yn: [Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru \(llyw.cymru\)](#)

Llywodraeth Cymru (2020). Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru). Memorandwm Esboniadol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/deddf-iechyd-gofal-cymdeithasol-ansawdd-ac-ymgysylltu-cymru-memorandwm-esboniadol>

Llywodraeth Cymru (2021). Y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol: System Iechyd a Gofal sy'n Dysgu. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: [Fframwaith Clinigol Cenedlaethol 8.0 \(llyw.cymru\)](#)

Llywodraeth Cymru (2021). Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: [Cymru Iachach \(llyw.cymru\)](#)

Llywodraeth Cymru (2022). Canllawiau Statudol y Ddyletswydd Ansawdd 2023 a Safonau Ansawdd 2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru Ar gael yn: [Canllawiau Statudol y Ddyletswydd Ansawdd \(llyw.cymru\)](#)

Llywodraeth Cymru (2023). Cwynion a phryderon am GIG Cymru: Gweithio i Wella. Ar gael yn: [Cwynion a phryderon am GIG Cymru: Gweithio i Wella | LLYW.CYMRU](#)